TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 6 - Mehefin 2026



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Hanes sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer TGAU Hanes o fis Medi 2026 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addysgu a Dyfarniad cyntaf wedi newid:<br>Addysgu cyntaf ym mis Medi 2026<br>Dyfarniad cyntaf 2028<br><br>Diweddaru 5.1 Cofrestru. | 2 a 7<br><br><br><br>59 |
| 3 | Diweddariad i gyfraniad Sbaen at pam yr oedd crefydd yn achos anghydfod yn Ewrop | 35 |
| 4 | Newid i'r rheol derfynol | 59 a 60 |
| 5 | Newid i'r rheol derfynol yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr ôl 16 | 62 |
| 6 | Cywiriad o ran cyfeirnodi dyddiad cyhoeddi'r llyfr Cymraeg cyntaf, Yn y Llyfr Hwn, 1547. Dylai ddarllen fel a ganlyn: Yn y Llyfr Hwn, 1546. | 19 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS

TGAU HANES .......... 5
CRYNODEB O'R ASESU .......... 5
1. CYFLWYNIAD .......... 8
1.1 Nodau .......... 8
1.2 Cwricwlwm i Gymru .......... 8
1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant .......... 10
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad .......... 10
1.5 Defnyddio iaith .......... 11
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg .......... 11
2 CYNNWYS Y PWNC AC INTEGREIDDIO PROFIADAU DYSGU A SGILIAU .......... 12
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad .......... 12
Nodyn ar derminoleg .......... 12
Uned 1 .......... 13
Uned 2 .......... 27
Uned 3 .......... 41
Uned 4 .......... 56
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu .......... 58
3 ASESU .......... 59
3.1 Amcanion asesu a phwysoli .......... 59
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad .......... 60
4 CAMYMDDWYN .......... 61
5 GWYBODAETH DECHNEGOL .......... 62
5.1 Cofrestru a dyfarnu .......... 62
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl .......... 64
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru .......... 65

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU HANES

## CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Astudiaeth fanwl o hanes Cymru**
***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**
**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**Yr Oesoedd Canol**
**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–1197
**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–1416
**Modern Cynnar**
**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 – tua 1547
**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, 1603–1660
**Modern**
**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831 – tua 1891
**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

**Uned 2: Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:* 3 awr**
**20% o'r cymhwyster**
**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**
**2.1** Genghis Khan tua 1162 – tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol
**2.2** Y Pla Du tua 1330 – tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yn yr oesoedd canol
**Modern Cynnar**
**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd modern cynnar
**2.4** Süleyman I tua 1520 – tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern**

**2.5** Y Drydedd Reich tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern

**2.6** Afghanistan tua 1979 – tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

**Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**
**30% o'r cymhwyster**

**60 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.

**Yr Oesoedd Canol**

**3.1** Y Llychlynwyr tua 750 – tua 1066

**3.2** Y Croesgadau tua 1095 – tua 1291

**Modern Cynnar**

**3.3** Ymerodraeth Songhai tua 1464 – tua 1591

**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal tua 1526 – tua 1707

**Modern**

**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953

**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas Unol Daleithiau America tua 1880 – tua 1980

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

**Uned 4: Cymdeithas sy'n newid**
***Asesiad di-arholiad*: 4 awr 15 munud**
**20% o'r cymhwyster**

**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio digwyddiadau â thema benodol o fewn cyfnod parhaus o tua 75–100 mlynedd o hanes. Rhaid i'r digwyddiadau a astudiwyd fod yn ddigwyddiadau o ynysoedd Prydain Fawr ac Iwerddon.

Ar gyfer yr aseiniad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros y cyfnod.

Ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer asesiad di-arholiad ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau a ddewisir ar gyfer yr arholiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Cymhwyster unedol yw hwn.

Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cwblhau Uned 4 yn ystod blwyddyn olaf y cwrs fyddai fwyaf priodol gan fod y dysgwyr yn ailedrych ar gyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn un o'r unedau cynharach. Byddai hyn yn caniatáu i ddysgwyr roi eu dealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol a'r sgiliau dadansoddi a gwerthuso y maen nhw wedi'u datblygu drwy gydol Unedau 1 a 3 ar waith. Byddai hefyd yn caniatáu i ddysgwyr adeiladu ar y dulliau a'r arferion a ddatblygwyd wrth gynnal ymholiad hanesyddol yn Uned 2.

Nid yw trefn gyflwyno Unedau 1-3 yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd yr arholiadau ar gyfer Unedau 1 a 3, a chyflwyno Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2027. Bydd modd cyflwyno Uned 4 am y tro cyntaf yn haf 2028. Yna bydd pob asesiad ar gael bob cyfres haf.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2028.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/9

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU HANES

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae cymhwyster TGAU Hanes yn cefnogi dysgwyr i:

- ddatblygu’r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ganddyn nhw am ddigwyddiadau, cyfnodau a chymdeithasau hanesyddol penodol ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang
- ehangu eu dealltwriaeth a’u gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a hanes Cymru a’r byd ac i ddatblygu ymdeimlad o gynefin
- dod yn haneswyr annibynnol, beirniadol ac adfyfyriol trwy sgiliau ymholi hanesyddol, cwestiynu, a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau
- llunio honiadau hanesyddol dilys a realistig trwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau yn eu cyd-destun i ddod i farn â sail gadarn
- dangos gwerthfawrogiad beirniadol o’r cysyniad o arwyddocâd hanesyddol, gan gynnwys:
  - pam mae rhai pobl, digwyddiadau a datblygiadau yn cael eu hystyried o bwys hanesyddol
  - pam bod gwahanol ddehongliadau wedi'u llunio am bobl, digwyddiadau a datblygiadau o bwys hanesyddol
- meithrin dealltwriaeth o hunaniaethau gwahanol, gan gynnwys eu hunaniaeth eu hunain, o fewn cymdeithas gymhleth, luosog ac amrywiol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Hanes hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc hynny a amlinellir yn rhan ‘Cynllunio eich Cwricwlwm’ Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 56; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Hanes yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1] gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - casglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
  - dod i gasgliadau gwybodus ond ar yr un pryd deall y gall rhai o'r casgliadau fod yn rhannol neu'n amhendant ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd
  - adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli
  - dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill, gan archwilio sut a pham gall dehongliadau fod yn wahanol
  - datblygu gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r Byd
  - datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwralaidd ac amrywiol cymdeithasau, ddoe a heddiw, yn benodol straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
  - datblygu dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a’r rhyngberthnasoedd sydd wedi ffurfio cymdeithasau ar wahanol lefelau o ddatblygiad
  - deall sut mae cymdeithasau wedi cael eu trefnu, eu strwythuro a’u harwain, yn ardal leol y dysgwyr ac yng Nghymru ac yn fyd-eang yn ogystal
  - archwilio’r cysylltiadau a’r rhyngddibyniaeth rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a’r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang
  - deall natur ryng-gysylltiedig cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfiawnder ac awdurdod; a’r angen i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol sy’n wynebu hiliaeth ac yn mynd i’r afael â’r broblem
  - adfyfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain a rhai pobl eraill
  - ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud eu dewisiadau ac arfer eu hawliau a chyfrifoldebau democrataidd
  - cyfiawnhau eu penderfyniadau.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - dod o hyd i wybodaeth addas, gwneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a ffurfio barn ynghylch dibynadwyedd a defnyddioldeb
  - ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn er mwyn meithrin dealltwriaeth gynyddol glir a chydlynol o'r byd o'u cwmpas
  - gweithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson neu sy'n gwrthdaro
  - trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau sy'n newydd ac yn gynyddol anghyfarwydd, gan ffurfio cysylltiadau o fewn cyfnodau a lleoedd a rhyngddyn nhw, gan nodi tebygrwyddau a gwahaniaethau, newid a pharhad
  - nodi cysylltiadau rhwng dysgu newydd a dysgu blaenorol â gwell dealltwriaeth o'r byd, o bobl eraill ac o'r gwerthoedd sydd ganddyn nhw, mewn cyfnodau, lleoedd ac amgylchiadau gwahanol.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Hanes yn seiliedig ar ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Hanes[3]. Mae'r cymhwyster yn:

- darparu cyfleoedd ar gyfer deall gwahanol gyfnodau, digwyddiadau, pobl a diwylliannau hanesyddol gan archwilio'r rhain ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang
- darparu cyfleoedd ar gyfer deall arwyddocâd pobl, digwyddiadau a datblygiadau hanesyddol a sut gellir dehongli'r rhain mewn gwahanol ffyrdd: mewn lleoedd gwahanol ac ar adegau gwahanol
- rhoi i ddysgwyr y sgiliau i allu deall, dehongli a gwerthuso tystiolaeth hanesyddol er mwyn llunio barn wybodus
- rhoi i ddysgwyr y sgiliau i allu gwneud synnwyr o'u lle a lle pobl eraill o fewn y fframwaith profiad dynol
- cynnig cyfleoedd i ddatblygu chwilfrydedd ac empathi a hefyd y gallu i hidlo a dadansoddi'n feirniadol yr holl wybodaeth sydd ar gael i ni, ffurfio barn sy'n wybodus ac yn gytbwys gan feithrin ymdeimlad o gynefin a'n lle yn y byd.

Mae'r cymhwyster TGAU Hanes yn seiliedig hefyd ar y cysyniadau hanesyddol canlynol sydd wedi'u rhestru yn y Meini Prawf Cymeradwyo:

- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

Mae pob un o'r cysyniadau hyn yn ategu canllawiau 'dylunio eich cwricwlwm' Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a chamau cynnydd y Dyniaethau.

## 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Hanes naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad

Lluniwyd y TGAU Hanes i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC AC INTEGREIDDIO PROFIADAU DYSGU A SGILIAU

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r tri bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael canllawiau pellach o ran i ba ddyfnder a lled y dylid addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar gyfer deunydd ffynhonnell neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn cael ei ddefnyddio pan mae'n rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'fel' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol.

## Nodyn ar derminoleg

Mae CBAC yn cydnabod ac yn croesawu'r dadleuon ynglŷn â dadwladychu hanes ac yn parhau i weithio i ddarparu cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r byd fel ag y mae. Mae rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir yn y fanyleb yn parhau i ddefnyddio geiriau a syniadau Ewroganolog, er enghraifft, rhannu cyfnodau hanesyddol yn gyfnodau oesoedd canol, modern cynnar a modern. Mae'r ddadl ynglŷn â pherthnasedd y termau hyn yn parhau; fodd bynnag, am y tro, rydym wedi parhau i'w defnyddio er mwyn cynnig eglurder i ddysgwyr ac athrawon. Efallai y byddwch eisiau osgoi defnyddio'r termau hyn, ac felly gallwch ddefnyddio'r cyfnodau amser canlynol i gyd-fynd â gofynion y fanyleb ar draws y pedair uned astudio:

- Hanes yr oesoedd canol, neu'r cyfnod rhwng tua 500 a thua 1450 CC
- Hanes modern cynnar, neu'r cyfnod rhwng tua 1450 a thua 1750 CC
- Hanes modern, neu'r cyfnod o tua 1750 CC a hyd at ddeng mlynedd cyn i'r grŵp blwyddyn ddechrau'r cwrs.

Mae'r derminoleg arall a ddefnyddir wedi'i dewis yn ofalus, a byddem yn annog canolfannau i adlewyrchu hyn wrth ddatblygu dysgu ac addysgu. Er enghraifft, mae'r term "person Affricanaidd wedi'i gaethiwo" yn well na "caethwas", fel y mae'r defnydd o Americanwr Affricanaidd yn hytrach na du neu Americanwr Du yn y cyfnod hyd at yr 1970au. Wedi'r cyfnod hwn, mae'n well gan rai pobl ddefnyddio'r term du neu Americanwr Du, ac rydym yn eich annog i ymchwilio i hyn cyn dechrau astudio'r maes hwn. Ar hyn o bryd, mae terminoleg a ddefnyddir y tu allan i'r Unol Daleithiau yn nodi mai du neu Ddu sy'n cael eu ffafrio. Wrth gyfeirio at ddinasyddion o gefndiroedd y mwyafrif byd-eang, mae'n well defnyddio eu treftadaeth benodol pan fo hynny'n hysbys a lle bo hynny'n bosibl. Dim ond mewn cyd-destun hanesyddol y dylid defnyddio terminoleg ddifrïol, er enghraifft, mewn deunydd ffynhonnell sy'n gyfoes i'r cyfnod. Yn y fanyleb, rydym wedi defnyddio 'Pobloedd Brodorol' sef y term sy'n cael ei ffafrio ac rydym yn cynghori dysgwyr ac athrawon i ddefnyddio'r derminoleg hon yn eu gwaith.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y derminoleg a ddefnyddir, cysylltwch â CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 1

### Astudiaeth fanwl o hanes Cymru

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr
30% o'r cymhwyster
60 marc (i'w gadarnhau)

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

Gall canolfannau ddewis un o'r tri chyfnod astudio: oesoedd canol, modern cynnar neu fodern, heb ailadrodd cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 2 neu 3. Bydd canolfannau'n dewis un o ddau opsiwn yn ystod y cyfnod.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 1.1 | Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132 – tua 1197 |
| | 1.2 | Owain Glyndŵr tua 1354 – tua 1416 |
| Modern Cynnar | 1.3 | Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 – tua 1547 |
| | 1.4 | Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref tua 1603 – tua 1660 |
| Modern | 1.5 | Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831 – tua 1891 |
| | 1.6 | Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 |

### Meysydd cynnwys

| Pob opsiwn |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.<br><br>Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.<br><br>Dylai dysgwyr hefyd allu cymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:<br>• parhad a newid<br>• nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol<br>• arwyddocâd ac effaith<br>• achos a chanlyniad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Yr Oesoedd Canol**

<table>
<tr><th colspan="2">1.1 Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132 – tua 1197</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>1.1.1 Cefndir teuluol Rhys ap Gruffudd<br>1.1.2 Pwysigrwydd rhyfela wrth ffurfio De Cymru rhwng 1146 ac 1170<br>1.1.3 Sefydlu heddwch gyda Harri II, tua 1170–1189<br>1.1.4 Y rhesymau dros achosion pellach o ryfela ac effaith y rhyfela hwnnw rhwng 1189 ac 1196<br>1.1.5 Marwolaeth a gwaddol Rhys ap Gruffudd<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith rheolaeth Rhys ap Gruffudd dros Ddeheubarth yn ystod y cyfnod rhwng tua 1132 a thua 1197</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>Cefndir: Cymru ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• arwyddocâd concwest a rheolaeth y Normaniaid, maint llwyddiant y Normaniaid wrth orchfygu Cymru a chreu'r Mers<br>• nodweddion pwysig bywyd yng Nghymru yn ystod y ddeuddegfed ganrif, o grefydd i natur ei heconomi, ei chymdeithas a'i diwylliant.</td></tr>
<tr><td>1.1.1 Cefndir teuluol Rhys ap Gruffudd</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• llinach Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  ◦ hawl ei dad, Gruffydd ap Rhys, i deyrnas Deheubarth<br>  ◦ arwyddocâd ei fam, Gwenllian ferch Gruffydd ap Cynan, tywysoges Gwynedd<br>• natur a phwysigrwydd perthynas Rhys â'i frodyr, gan gynnwys:<br>  ◦ ymgyrchoedd a marwolaeth ei hanner brawd Anarawd yn 1143<br>  ◦ pwysigrwydd ei frodyr Maredudd a Cadell a oedd wedi goroesi<br>• rheolaeth Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  ◦ sut a pham y daeth yn rheolwr ar Ddeheubarth yn 1155<br>  ◦ pwysigrwydd ei briodas â Gwenllian ferch Madog ap Maredudd, merch Tywysog Powys.</td></tr>
<tr><td>1.1.2 Pwysigrwydd rhyfela wrth ffurfio De Cymru rhwng 1146 a 1170</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• natur a maint Teyrnas Deheubarth, ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif, gan gynnwys:<br>  ◦ colli Deheubarth i'r Normaniaid yn 1093 yn dilyn marwolaeth Rhys ap Tewdwr<br>  ◦ yr ymgais i adennill tiriogaethau Deheubarth yn 1116 ac 1136<br>• arwyddocâd y rhyfeloedd yn erbyn Gwynedd, gan gynnwys:<br>  ◦ cipio Castell Caerfyrddin yn 1145 a'r castell yn Ninbych-y-pysgod yn 1153<br>  ◦ ail-gipio Ceredigion o afael Gwynedd yn 1153<br>• y gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Lloegr, gan gynnwys:<br>  ◦ yr ymgyrchoedd yn erbyn Lloegr, 1158–1170<br>  ◦ canlyniad y gwrthryfel.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.1.3 Sefydlu heddwch gyda Harri II, tua 1170–1189 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut a pham y datblygwyd y berthynas â Harri II, gan gynnwys:<br>  • rôl Rhys fel Prif Ustus o 1172 ymlaen<br>  • pwysigrwydd y Cynghorau Brenhinol yng Nghaerloyw, 1175 a Rhydychen, 1177<br>• y rhesymau dros gestyll ac adeiladu cestyll a'u harwyddocâd, gan gynnwys:<br>  • Castell Aberteifi, lleoliad yr Eisteddfod gyntaf, a gynhaliwyd yn 1176<br>  • Castell Dinefwr, cartref hynafiadol y teulu<br>• pwysigrwydd crefydd, gan gynnwys:<br>  • noddi abatai gan gynnwys Ystrad Fflur<br>  • cefnogaeth i Gerallt Cymro a'r Drydedd Groesgad. |
| 1.1.4 Y rhesymau dros achosion pellach o ryfela ac effaith y rhyfela hwnnw rhwng 1189 ac 1196 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• problemau cynyddol rhwng Rhys a'r Brenin Rhisiart I o Loegr<br>  • ymweliad y Tywysog John â Rhys i osgoi gwrthdaro yn 1189<br>  • Rhisiart yn gwrthod cwrdd â Rhys yn Rhydychen a goblygiadau hynny i'w statws fel rheolwr yng Nghymru<br>• digwyddiadau'r rhyfel a'u heffaith ar gymdogion Normanaidd, gan gynnwys:<br>  • yr ymosodiadau ar Hwlffordd, Penfro a Gŵyr yn 1189<br>  • cipio cestyll Sanclêr, Talacharn, Llansteffan a Nanhyfer<br>• ymgyrch olaf lwyddiannus Rhys, gan gynnwys:<br>  • cipio'r cestyll yng Nghaerfyrddin, Colwyn a Maesyfed<br>  • trechu byddin Roger de Mortimer a Hugh de Say ym Maesyfed. |
| 1.1.5 Marwolaeth a gwaddol Rhys ap Gruffudd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• yr anghydfod rhwng Rhys a'i feibion a'i etifeddion, gan gynnwys:<br>  • perthynas anodd gyda'i fab, Maelgwn<br>  • carcharu ei feibion Rhys Gryg a Maredudd<br>• y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Rhys yn 1197, gan gynnwys:<br>  • achos ei farwolaeth a'i effaith uniongyrchol<br>  • statws Rhys pan fu farw: ysgymuno, ei fflangellu a'i gladdu yn Nhyddewi<br>• gwaddol Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  • yr anghydfod ynghylch yr olyniaeth – Maelgwn yn herio Gruffudd ap Rhys<br>  • Deheubarth yn dod yn wladwriaeth ddibynnol ar Wynedd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">1.2 Owain Glyndŵr tua 1354 – tua 1416</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>1.2.1 cefndir teuluol Owain Glyndŵr<br>1.2.2 gwasanaeth milwrol Owain Glyndŵr i Rhisiart II, Brenin Lloegr<br>1.2.3 Owain Glyndŵr a'r gefnogaeth i Wrthryfel Cymru<br>1.2.4 teyrnasiad Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru<br>1.2.5 marwolaeth a gwaddol Owain Glyndŵr<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o rôl Owain Glyndŵr yn y berthynas rhwng Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod rhwng tua 1354 a thua 1416.</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>Cefndir: Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o<br>• arwyddocâd ardrefniant Edward, y gwrthryfeloedd yn erbyn rheolaeth Lloegr a theyrnasiad Brenin Rhisiart II o Loegr<br>• nodweddion bywyd yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, natur cymdeithas Cymru, dosbarthiadau cymdeithasol a rôl menywod.</td></tr>
<tr><td>1.2.1 Cefndir teuluol Owain Glyndŵr</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• llinach Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<br>  ◦ ei dad Gruffudd Fychan ap Gruffudd, disgynnydd i dywysogion Powys<br>  ◦ ei fam Elen ferch Thomas ap Llywelyn, disgynnydd i dywysogion Deheubarth a Gwynedd<br>• natur a phwysigrwydd ei fywyd cynnar, gan gynnwys:<br>  ◦ effaith marwolaeth ei dad yn 1370<br>  ◦ dod yn gyfreithiwr ar brentisiaeth yn Ysbytai'r Brawdlys yn Llundain.<br>• arwyddocâd ei fywyd priodasol, gan gynnwys:<br>  ◦ ei briodas â Margaret Hanmer<br>  ◦ byw fel arglwydd Sycharth.</td></tr>
<tr><td>1.2.2 Gwasanaeth milwrol Owain Glyndŵr i Rhisiart II, Brenin Lloegr</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• natur gwasanaeth milwrol cynnar Owain Glyndŵr yn yr Alban, gan gynnwys:<br>  ◦ ei ymwneud â garsiwn Berwick-upon-Tweed<br>  ◦ ei wasanaeth milwrol i John o Gaunt<br>• llwyddiannau ei wasanaeth milwrol yn y Sianel (Y Môr Udd), gan gynnwys:<br>  ◦ ei rôl fel yswain i Iarll Arundel<br>  ◦ ei rôl fel yswain i Henry Bolingbroke<br>• diwedd ei wasanaeth milwrol, gan gynnwys:<br>  ◦ amddiffyn Rhisiart II rhag ei wrthwynebwyr gwleidyddol<br>  ◦ ei ymddeoliad i Sycharth.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><td>1.2.3</td><td>Owain Glyndŵr a'r gefnogaeth i Wrthryfel Cymru</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>y drwgdeimlad oedd yn sail i'r gefnogaeth i Wrthryfel Glyndŵr yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>diffyg cyfleoedd i bobl Cymru</li><li>effaith Harri IV yn cipio gorsedd Lloegr oddi wrth Rhisiart II</li></ul></li><li>llwyddiannau cynnar y gwrthryfel, gan gynnwys:<ul><li>anghydfod Glyndŵr â'r Arglwydd Grey</li><li>Brwydr Mynydd Hyddgen, 1401</li></ul></li><li>digwyddiadau a gynyddodd y gefnogaeth i'r gwrthryfel yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>effaith deddfau cosbi Harri IV</li><li>llwyddiant Glyndŵr ym Mryn Glas, 1402.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>1.2.4</td><td>Teyrnasiad Owain Glyndŵr fel Tywysog Cymru</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>sut y sefydlodd Owain Glyndŵr ei hun yn Dywysog Cymru, gan gynnwys:<ul><li>defnyddio Castell Harlech fel canolbwynt y llywodraeth</li><li>cynnal Senedd Cymru ym Machynlleth</li></ul></li><li>cefnogaeth i'w deyrnasiad y tu hwnt i Gymru, gan gynnwys:<ul><li>y Cytundeb Tridarn a'r cytundeb gyda'r Ffrancwyr</li><li>Llythyr Pennal</li></ul></li><li>yr anawsterau cynyddol a wynebodd yn ystod ei deyrnasiad, gan gynnwys:<ul><li>buddugoliaeth Lloegr ym Mhwll Melyn, 1405</li><li>Lloegr yn cipio Castell Harlech, 1409.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>1.2.5</td><td>Marwolaeth a gwaddol Owain Glyndŵr</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>blynyddoedd olaf gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<ul><li>gwrthod pardwn oddi wrth Harri IV yn 1411</li><li>yr ymgyrchoedd gerila parhaus</li></ul></li><li>gwaddol uniongyrchol gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<ul><li>effaith y gwrthryfel parhaus ar ei gefnogwyr a'i deulu</li><li>dirgelwch ei farwolaeth a'i gladdedigaeth</li></ul></li><li>enw da Owain Glyndŵr, gan gynnwys:<ul><li>chwedloniaeth y Mab Darogan</li><li>dod yn symbol o genedlaetholdeb Cymreig.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern Cynnar**

<table>
<tr><th colspan="2">1.3 Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485 – tua 1547</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>1.3.1 Esgyniad Harri VII<br>1.3.2 Llywodraethiant Cymru o dan Harri VII, 1485–1509<br>1.3.3 Ymdrechion cynnar Harri VIII i reoli Cymru, 1509–1536<br>1.3.4 Effaith y Diwygiad cynnar ar Gymru<br>1.3.5 Deddfau Uno 1536 a 1543<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o effaith teyrnasiad brenhinoedd cynnar y Tuduriaid ar Gymru yn ystod y cyfnod rhwng 1485 a 1547.</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>Cefndir: Cymru yng nghanol y bymthegfed ganrif</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddylanwad gwleidyddol ardrefniant Edward, y Mers ac arglwyddi'r Mers, a Rhyfeloedd y Rhosynnod ar Gymru<br>• nodweddion pwysig bywyd yng Nghymru yn y bymthegfed ganrif, natur cymdeithas Cymru, statws yr iaith Gymraeg a phwysigrwydd crefydd a'r Eglwys.</td></tr>
<tr><td>1.3.1 Esgyniad Harri VII</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• tarddiad Llinach y Tuduriaid, gan gynnwys:<br>  ◦ Harri, Iarll Richmond, ei linach a'i flynyddoedd cynnar ym Mhenfro<br>  ◦ arwyddocâd Margaret Beaufort<br>• brwydrau olaf Rhyfeloedd y Rhosynnod, gan gynnwys:<br>  ◦ Brwydr Bosworth, 1485 a Brwydr Stoke, 1487<br>  ◦ arwyddocâd unigolion allweddol, gan gynnwys Rhisiart III, Jasper Tudur a'r brodyr Stanley<br>• Harri yn cipio'r orsedd, gan gynnwys:<br>  ◦ gweithredoedd uniongyrchol Harri i sicrhau'r orsedd<br>  ◦ arwyddocâd Elisabeth o Efrog.</td></tr>
<tr><td>1.3.2 Llywodraethiant Cymru o dan Harri VII, 1485–1509</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• perthynas Harri VII ag arglwyddi'r Mers, gan gynnwys:<br>  ◦ cymryd rheolaeth dros y rhan fwyaf o arglwyddiaethau gogledd y Mers a chyhoeddi siarteri braint<br>  ◦ ailsefydlu Cyngor Cymru a'r Gororau yn 1493 yn Llwydlo<br>• perthynas Harri VII â bonedd Cymru, gan gynnwys:<br>  ◦ safle bonedd Cymru yn y llys brenhinol<br>  ◦ defnyddio bonedd Cymru gan gynnwys Syr Rhys ap Thomas a William ap Gruffudd i reoli rhannau helaeth o Gymru<br>• arwyddocâd etifedd Lloegr yn Dywysog Cymru, gan gynnwys:<br>  ◦ arwisgiad y Tywysog Arthur yn 1489 yn 3 oed<br>  ◦ arwisgiad y Tywysog Harri yn 1504 yn dilyn marwolaeth ei frawd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.3.3 Ymdrechion cynnar Harri VIII i reoli Cymru, 1509–1531 | • ymdrechion Harri VIII i reoli Cymru hyd at 1531, gan gynnwys:<br>  • rôl John Veysey, Esgob Caerwysg fel Arglwydd Lywydd<br>  • Arglwyddi trafferthus y Mers, gan gynnwys yr Herbertiaid ac arglwyddiaeth Magwyr<br>• Y Dywysoges Mari a'i chysylltiadau â Chymru, gan gynnwys:<br>  • Mari yn Dywysoges Cymru, 1525–1531<br>  • llys y Dywysoges Mari yn Llwydlo o 1525 ymlaen<br>• arwyddocâd protest Syr Rhys ap Gruffudd, gan gynnwys:<br>  • cwynion am ymyrraeth Harri VIII â'i etifeddiaeth<br>  • cyhuddiadau o frad a sut y ymdriniwyd â'r cyhuddiadau hynny |
| 1.3.4 Effaith y Diwygiad cynnar ar Gymru | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith ddiwylliannol a gwleidyddol newid crefyddol yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros Ddiwygiad Harri VIII<br>  • diwygio'r Eglwys o dan Harri VIII<br>• effaith gymdeithasol Diwygiad Harri VIII yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • Thomas Cromwell a'r rhesymau dros ddiddymu'r mynachlogydd<br>  • effaith diddymu mynachlogydd Tyndyrn, Castell-nedd, Margam ac Ystrad Fflur<br>• gwrthwynebiad i'r Diwygiad yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • ceidwadaeth llawer o bobl Cymru<br>  • arwyddocâd y Gymraeg a'r llyfr Cymraeg cyntaf – *Yn y Llyfr Hwn*, 1546. |
| 1.3.5 Deddfau Uno 1536 a 1543 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• cefndir cyflwyno'r Deddfau Uno, 1536 a 1543, gan gynnwys:<br>  • Rowland Lee ac anghyfraith yng Nghymru<br>  • ofn gwrthwynebiad a goresgyniad o dramor yn gysylltiedig â Diwygiad Harri VIII<br>• manylion gweinyddol y Deddfau, gan gynnwys:<br>  • rôl Thomas Cromwell wrth ddylanwadu ar yr hyn yr oedd y Deddfau yn eu newid<br>  • unffurfiaeth yn y llywodraeth o ran siroedd a swyddi, fel siryfion ac Ynadon Heddwch a'r Llysoedd Chwarter a’r Sesiwn Fawr.<br>• effaith y Deddfau, gan gynnwys:<br>  • pwysigrwydd cymalau iaith y Deddfau<br>  • i ba raddau y daeth Cymru yn rhan o Loegr, yn hytrach na'i huno â Lloegr. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 1.4 Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref 1603–1660 | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>1.4.1 Teyrnasiad Iago I, 1603–1625<br>1.4.2 Y symudiad i gyfeiriad Rhyfel Cartref, 1625–1642<br>1.4.3 Pwysigrwydd Cymru yn y Rhyfel Cartref, 1642–1651<br>1.4.4 Effaith y Rhyfel Cartref ar Gymru<br>1.4.5 O'r Weriniaeth i'r Adferiad, 1651–1660<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gwrthdaro rhwng brenhinoedd cynnar y Stiwartiaid a'r Senedd, a'i effaith ar Gymru yn ystod y cyfnod rhwng 1603 a 1660. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: Cymru, y gymdeithas a'r Goron ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddylanwad cyffredinol gwleidyddiaeth, cefnogwyr a gwrthwynebwyr y Brenin, a ffactorau a ffurfiodd gymdeithas Cymru ac economi Cymru o 1603 ymlaen<br>• arwyddocâd crefydd mewn cymdeithas: grym a dylanwad yr Eglwys, Protestaniaid, Catholigion a chredoau Piwritanaidd newydd yng Nghymru. |
| 1.4.1 Teyrnasiad Iago I, 1603–1625 | • agwedd Iago I tuag at y teyrnasoedd yr oedd yn eu rheoli, gan gynnwys:<br>  ◦ ei statws fel Iago I o Loegr ac Iago VI o'r Alban ond yn cyfeirio at ei hun fel Brenin Prydain Fawr ac Iwerddon<br>  ◦ enwi ei etifeddion yn Dywysog Cymru – Harri yn 1610, a Siarl yn 1616<br>• problemau Iago I o ran crefydd yn ei deyrnasoedd, gan gynnwys:<br>  ◦ Cynllwyn y Powdwr Gwn yn 1605 a gwrthdaro gyda'r Catholigion<br>  ◦ Beibl y Brenin Iago yn 1611 a gwrthdaro gyda'r Piwritaniaid<br>• problemau Iago I o ran rheoli ei deyrnasoedd, gan gynnwys:<br>  ◦ perthynas anodd gyda'r Senedd<br>  ◦ dibynnu ar ei ffefrynnau gan gynnwys Iarll Salisbury a Dug Buckingham. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr>
<td>1.4.2 Y symudiad i gyfeiriad Rhyfel Cartref, 1625–1642</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall:
<ul>
<li>digwyddiadau Llywodraeth Bersonol Siarl I, gan gynnwys:
<ul>
<li>anawsterau wrth geisio codi arian heb Senedd trwy Dreth Longau a dulliau eraill</li>
<li>Archesgob Laud a'r materion crefyddol a arweiniodd at ryfel yn erbyn yr Alban o 1639 ymlaen</li>
</ul></li>
<li>digwyddiadau yn arwain at y Rhyfel Cartref, gan gynnwys:
<ul>
<li>dadleuon gyda'r Senedd dros ariannu'r rhyfel yn yr Alban a delio â gwrthryfel yn Iwerddon yn 1641</li>
<li>triniaeth rhai o gynghorwyr agosaf Siarl gan y Senedd, gan gynnwys Laud a Strafford</li>
</ul></li>
<li>Cymru a'i chefnogaeth i'r brenin yn ystod teyrnasiad Siarl I, gan gynnwys:
<ul>
<li>gwŷr dylanwadol o Gymru, gan gynnwys Syr Robert Mansel o Fargam a Syr John Owen</li>
<li>gwŷr Cyngor Cymru a'r Gororau cyn iddo gael ei ddiddymu yn 1641.</li>
</ul></li>
</ul></td>
</tr>
<tr>
<td>1.4.3 Pwysigrwydd Cymru yn y Rhyfel Cartref, 1642–1651</td>
<td>Dylai dysgwyr ddeall:
<ul>
<li>rôl personél milwrol Cymru yn Lloegr, gan gynnwys:
<ul>
<li>pwysigrwydd cyfraniad y Cymry ym mrwydrau Edgehill a Newbury</li>
<li>defnyddio'r Cymry fel troedfilwyr a bywyd troedfilwr, gan gynnwys, gweithgareddau dyddiol, rheolau ar gyfer milwyr, gwisg ac arfau</li>
</ul></li>
<li>pwysigrwydd strategol Cymru fel cadarnle Brenhinol, gan gynnwys:
<ul>
<li>Siarl I yn defnyddio cestyll, gan gynnwys Harlech a Rhaglan, fel canolfannau strategol</li>
<li>defnyddio llwybrau drwy Gymru er mwyn sicrhau cefnogaeth y Catholigion yn Iwerddon</li>
</ul></li>
<li>arwyddocâd brwydro yng Nghymru, gan gynnwys:
<ul>
<li>cynnydd Seneddol allweddol yng Nghymru, gan gynnwys yn Sir Benfro</li>
<li>Brwydr Sain Ffagan, 1648.</li>
</ul></li>
</ul></td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.4.4 Effaith y Rhyfel Cartref ar Gymru | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• canlyniadau crefyddol y Rhyfel yng Nghymru, gan gynnwys:<br>    • diddymu Eglwys Loegr<br>    • Piwritaniaeth a Deddf 1650 i gynyddu ei ddylanwad yng Nghymru<br>• canlyniadau cymdeithasol y Rhyfel yng Nghymru, gan gynnwys:<br>    • yr effaith ar y rhai a fu'n rhan o'r rhyfel, gan gynnwys Menywod Naseby<br>    • adeiladu ystadau newydd ar dir a atafaelwyd, gan gynnwys datblygiadau Philip Jones o Langyfelach<br>• canlyniadau gwleidyddol i Gymru, gan gynnwys:<br>    • cosbi'r Cymry a fu'n ymladd dros y Brenin<br>    • yr effaith ar yrfaoedd y teyrnleiddiaid o Gymru. |
| 1.4.5 O Weriniaeth i Adferiad, 1651–1660 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut yr oedd Cymru'n cael ei llywodraethu yn yr 1650au, gan gynnwys:<br>    • y Gymanwlad ar gyfer llywodraethu heb Frenin<br>    • rheolaeth uniongyrchol gan yr Uwch-Frigadydd Berry yng Nghymru<br>• gwrthdaro o ran teyrngarwch yng Nghymru, gan gynnwys:<br>    • y bonedd Brenhinol yn gweithio i Bwyllgorau Sirol y Weriniaeth<br>    • y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn parhau i gefnogi'r Brenhinwyr<br>• diwedd yr arbrawf gweriniaethol, gan gynnwys:<br>    • Thomas Myddleton yn datgan Siarl II yn wir frenin yn Wrecsam yn 1659<br>    • adfer brenhiniaeth y Stiwartiaid yn 1660. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern**

| 1.5 Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831 – tua 1891 | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>1.5.1 Gwrthryfel Merthyr 1831<br>1.5.2 Terfysgoedd Beca, 1839–1843<br>1.5.3 Siartiaeth yng Nghymru<br>1.5.4 Llyfrau Gleision 1847 a'u heffaith yng Nghymru<br>1.5.5 Rhyfel y Degwm yng ngogledd-ddwyrain Cymru, 1886–1891<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o natur protest yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng tua 1831 a thua 1891. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: Newid ac anniddigrwydd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• economi a chymdeithas Cymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, newid demograffig a nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd diwydiannol<br>• y rhesymau dros radicaliaeth ac anniddigrwydd yng Nghymru, streiciau, protestiadau a galwadau ehangach am ddiwygio gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig |
| 1.5.1 Gwrthryfel Merthyr, 1831 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• achosion y gwrthryfel, gan gynnwys:<br>  ◦ agweddau a gweithredoedd y meistri haearn, gan gynnwys teulu Crawshay, Cyfarthfa<br>  ◦ amodau byw a gwaith pobl Merthyr Tudful<br>• digwyddiadau'r gwrthryfel, gan gynnwys:<br>  ◦ radicaliaeth a ffurfio undeb gwleidyddol<br>  ◦ protestiadau yng Nghwrt y Deisyfion, Tafarn y Castell a Thŷ Penydarren<br>• canlyniadau'r gwrthryfel gan gynnwys:<br>  ◦ gweithredoedd yr awdurdodau a'r meistri haearn ym Merthyr<br>  ◦ y driniaeth a roddwyd i derfysgwyr gan gynnwys Dic Penderyn. |
| 1.5.2 Terfysgoedd Beca, 1839–1843 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y rhesymau dros Derfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  ◦ natur perchnogaeth tir yng ngorllewin a chanolbarth Cymru<br>  ◦ problemau i gymunedau gwledig gan gynnwys y degwm a thollbyrth<br>• digwyddiadau Terfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  ◦ yr ymosodiad ar y clwydi yn Efailwen yn 1839<br>  ◦ yr ymosodiad ar Wyrcws Caerfyrddin, 1843<br>• canlyniadau Terfysgoedd Beca, gan gynnwys:<br>  ◦ ymateb yr awdurdodau i'r terfysgoedd<br>  ◦ y Comisiwn Ymchwilio a'i effeithiau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><td>1.5.3</td><td>Siartiaeth yng Nghymru</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>pam roedd galw am ddiwygio yng Nghymru yn yr 1830au, gan gynnwys:<ul><li>lefelau diweithdra ac effaith Deddf y Tlodion yn 1834</li><li>radicaliaeth a chanlyniadau Deddf Ddiwygio Fawr, 1832</li></ul></li><li>datblygiad mudiad y Siartwyr, gan gynnwys:<ul><li>Siarter y Bobl a thair deiseb y Siartwyr</li><li>dadleuon rhwng yr arweinwyr Feargus O'Connor a William Lovett</li></ul></li><li>effaith Siartiaeth, gan gynnwys:<ul><li>Gwrthryfel Casnewydd, 1839</li><li>methiannau tymor byr a llwyddiannau tymor hir Siartiaeth.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>1.5.4</td><td>Llyfrau Gleision 1847 a'u heffaith yng Nghymru</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>y rhesymau dros yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>cyflwr addysg yng Nghymru yn yr 1830au a'r 1840au</li><li>pryderon am aflonyddwch cymdeithasol yng Nghymru yn yr 1830au a'r 1840au</li></ul></li><li>canfyddiadau'r Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>rôl Ralph Wheeler Lingen, Jellynger Symons a Henry Johnson yn llunio'r adroddiadau Llyfrau Gleision yn 1847</li><li>beirniadu addysg yng Nghymru gan gynnwys defnyddio'r iaith Gymraeg, y niferoedd oedd yn cymryd rhan ac arferion crefyddol</li></ul></li><li>effaith Adroddiad Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru, gan gynnwys:<ul><li>ei effaith ar addysg yng Nghymru, gan gynnwys y Welsh Not</li><li>ymateb y Cymry i'r adroddiad, gan gynnwys y ddrama Brad y Llyfrau Gleision yn 1854</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>1.5.5</td><td>Rhyfel y Degwm yng ngogledd-ddwyrain Cymru, 1886–1891</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>y rhesymau dros Ryfel y Degwm yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys:<ul><li>y baich ar denantiaid i dalu'r degwm, grym y landlordiaid a'r bygythiad o gael eu troi allan</li><li>y gostyngiad mewn prisiau da byw yn yr 1880au</li></ul></li><li>prif ddigwyddiadau Rhyfel y Degwm, gan gynnwys<ul><li>ffurfio Cynghrair i Wrthwynebu'r Degwm yn Llanarmon-yn-Iâl</li><li>aflonyddwch i gefnogi ffermwyr gan gynnwys y rhai ym Mochdre a Llangwm</li></ul></li><li>canlyniadau Rhyfel y Degwm, gan gynnwys:<ul><li>y driniaeth a roddwyd i'r rhai a wrthododd dalu'r degwm neu a oedd yn gysylltiedig ag aflonyddwch</li><li>yr ymdrechion i ddatrys problem y degwm gyda Deddf y Degwm yn 1891 a Chomisiwn Tir Cymru.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.6 Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

1.6.1 Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'i ganlyniadau ar gymdeithas Cymru
1.6.2 Bywyd yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad
1.6.3 Cymru yn yr Ail Ryfel Byd
1.6.4 Datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru erbyn yr 1950au
1.6.5 Datblygiadau yng nghymdeithas Cymru erbyn yr 1950au

gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd bywydau pobl yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng tua 1914 a thua 1959.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| Cefndir: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• bwysigrwydd diwydiant i economi Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys mwyngloddio glo a'r diwydiant dur<br>• dylanwadau ar y newid ym mywydau pobl Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys yr ymgyrch dros bleidlais i fenywod ac effaith mudo. |
| 1.6.1 Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'i ganlyniadau ar gymdeithas Cymru | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• dylanwad y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  ◦ y Ffrynt Cartref yng Nghymru yn ystod y Rhyfel<br>  ◦ gwrthwynebwyr cydwybodol a heddychiaeth<br>• newidiadau ym mywydau menywod, gan gynnwys:<br>  ◦ rôl menywod Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf<br>  ◦ bywydau menywod yng Nghymru yn yr 1920au<br>• tensiynau ar sail hil yn Ne Cymru, gan gynnwys<br>  ◦ Terfysgoedd Hil De Cymru yn 1919<br>  ◦ ymateb yr awdurdodau i'r terfysgoedd. |
| 1.6.2 Bywyd yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• rhesymau dros y Dirwasgiad yng Nghymru gan gynnwys:<br>  ◦ dirywiad diwydiannau traddodiadol glo a haearn<br>  ◦ effaith Cwymp Wall Street, 1929 ar ddiwydiant<br>• effaith y dirwasgiad ar bobl Cymru, gan gynnwys:<br>  ◦ tlodi, y dôl, y Prawf Modd a gorymdeithiau newyn o'r Rhondda<br>  ◦ diweithdra ac allfudo o Gymru<br>• ymateb Cymru i'r Dirwasgiad, gan gynnwys:<br>  ◦ Deddf yr Ardaloedd Arbennig, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest a thwf diwydiant ysgafn<br>  ◦ gwella cyfleoedd hamdden, twristiaeth, chwaraeon, radio a sinema. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 1.6.3 | Cymru yn yr Ail Ryfel Byd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• bywyd ar y Ffrynt Cartref yng Nghymru gan gynnwys:<br>  • effaith dogni<br>  • lleoli milwyr Unol Daleithiau America (GIs) yng Nghymru<br>• menywod Cymru yn yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys:<br>  • y Lluoedd Atodol a Gwasanaeth Gwirfoddol y Menywod<br>  • gweithio mewn ffatrïoedd arfau a Byddin Tir y Menywod<br>• effaith rhyfela o'r awyr ar Gymru, gan gynnwys:<br>  • profiadau faciwîs a'r teuluoedd oedd yn eu derbyn yng Nghymru<br>  • bomio Caerdydd, Abertawe a Doc Penfro. |
| 1.6.4 | Datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru erbyn yr 1950au | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith buddugoliaeth Llafur yn etholiad 1945 ar Gymru, gan gynnwys:<br>  • gwladoli diwydiannau allweddol gan gynnwys glo a dur<br>  • Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG yn 1948<br>• datblygiadau o ran cydnabod Cymru o fewn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:<br>  • Caerdydd yn dod yn brifddinas yn 1955<br>  • mabwysiadu baner "Y Ddraig Goch" yn 1959<br>• dylanwad cenedlaetholdeb Cymreig, gan gynnwys:<br>  • cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Cymru<br>  • Gwynfor Evans a'r ymgyrch yn erbyn boddi cwm Tryweryn. |
| 1.6.5 | Datblygiadau yng nghymdeithas Cymru erbyn yr 1950au | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut newidiodd bywydau pobl yng Nghymru yn yr 1950au gan gynnwys:<br>  • newidiadau ym mywydau menywod yn y cartref ac yn y gwaith<br>  • pobl ifanc yn eu harddegau a datblygiad diwylliant ieuenctid<br>• profiad mewnfudwyr i Gymru gan gynnwys:<br>  • cenhedlaeth Windrush Cymru ac ailadeiladu ar ôl y rhyfel<br>  • cymuned amlhil Tiger Bay<br>• dylanwad y newidiadau i gyfleoedd hamdden ar fywydau pobl yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • effaith y teledu<br>  • twf twristiaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

**Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd**

Asesiad di-arholiad ar sgrin: 3 awr
Wedi'i farcio gan CBAC
20% o'r cymhwyster
80 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

Gall canolfannau ddewis un o'r tri chyfnod astudio: oesoedd canol, modern cynnar neu fodern, heb ailadrodd cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 1 neu 3. Bydd canolfannau'n dewis un o ddau opsiwn yn ystod y cyfnod.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 2.1 | Genghis Khan tua 1162 – tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol |
| | 2.2 | Y Pla Du tua 1330 – tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yn yr oesoedd canol |
| Modern Cynnar | 2.3 | Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd modern cynnar |
| | 2.4 | Süleyman I tua 1520 – tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar |
| Modern | 2.5 | Y Drydedd Reich tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern |
| | 2.6 | Afghanistan tua 1979 – tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **Pob opsiwn** |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd. Yna byddant yn cynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar eu dewis o destun hanesyddol.<br><br>Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.<br><br>Dylai dysgwyr hefyd allu cymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:<br>• parhad a newid<br>• nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol<br>• arwyddocâd ac effaith<br>• achos a chanlyniad. |
| Dylai dysgwyr allu dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ymholiadau hanesyddol, gan gynnwys:<br>• cael trosolwg o destun penodol<br>• casglu tystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o'r hanes a'r dadleuon cysylltiedig<br>• crynhoi'r pwyntiau a'r dadleuon allweddol<br>• adolygu gwybodaeth a ffurfio rhagdybiaeth sy'n gysylltiedig â chwestiwn penodol<br>• dewis, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth<br>• cynllunio a llunio ymateb i gwestiwn penodol<br>• datblygu hunanwerthusiad beirniadol o'u perfformiad yn y dasg. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Yr Oesoedd Canol**

| **2.1 Genghis Khan tua 1162 – tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>2.1.1 Esgyniad Temujin i rym<br>2.1.2 Creu gwladwriaeth y Mongoliaid<br>2.1.3 Y Mongoliaid yn goresgyn China<br>2.1.4 Ymosodiadau'r Mongoliaid ar ganolbarth Asia<br>2.1.5 Marwolaeth a gwaddol Genghis Khan | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: Daearyddiaeth a chymdeithas y Mongoliaid | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddylanwad daearyddiaeth ar lwythau'r Mongoliaid, fel trafferthion o ran y tir a'r hinsawdd a'u dibyniaeth ar fasnachu gyda chymdogion<br>• nodweddion allweddol cymdeithas y Mongoliaid, fel eu tactegau milwrol a'u crefydd. |
| 2.1.1 Esgyniad Temujin i rym | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pwysigrwydd cefndir teuluol Temujin, gan gynnwys:<br>  • y Tartariaid yn gyfrifol am lofruddiaeth ei dad<br>  • ei fywyd yn alltud gyda'i fam, Hö'elün<br>• sut y daeth Temujin yn unig reolwr ar y Mongoliaid, gan gynnwys:<br>  • y gwrthdaro gyda'i wrthwynebwyr Jamukha ac Ong Khan<br>  • trechu llwyth y Naiman a'r Tartariaid. |
| 2.1.2 Creu gwladwriaeth y Mongoliaid | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut y sefydlwyd gwladwriaeth y Mongoliaid, gan gynnwys:<br>  • Kurultai Burkhan Khaldun<br>  • y keshig, y llys brenhinol a rôl ac arwyddocâd Borte<br>• effaith chwyldro cymdeithasol Genghis Khan, gan gynnwys:<br>  • y system ddegol filwrol<br>  • yassa, cod y gyfraith lafar. |
| 2.1.3 Y Mongoliaid yn goresgyn China | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pwysigrwydd gwendid China, gan gynnwys:<br>  • China'n cael ei rhannu rhwng y llinachau cystadleuol<br>  • ymostyngiad yr Ymerawdwr Xiangzong<br>• sut y cymerodd y Mongoliaid reolaeth dros China, gan gynnwys:<br>  • rhyfeloedd yn erbyn Gorllewin Xia<br>  • y rhyfel yn erbyn llinach Jin. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.1.4 Ymosodiadau'r Mongoliaid ar ganolbarth Asia | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pwysigrwydd gwendidau Ymerodraeth Khwarazm, gan gynnwys:<br>  • gwrthwynebu Shah Muhammad II<br>  • rheolaeth y Mongoliaid dros fasnach y Llwybr Sidan<br>• effaith ymosodiadau'r Mongoliaid ar Ymerodraeth Khwarazm, gan gynnwys:<br>  • anrheithio Bukhara a Samarkand<br>  • cost ddynol yr ymgyrch. |
| 2.1.5 Marwolaeth a gwaddol Genghis Khan | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• arwyddocâd gwaddol uniongyrchol Genghis Kahn, gan gynnwys:<br>  • trosglwyddo grym yn heddychlon i Ögodei, yr olynydd a ddewiswyd ganddo, yn dilyn ei farwolaeth yn 1227<br>  • Ymerodraeth y Mongoliaid fel gwladwriaeth imperialaidd gref â byddin effeithiol<br>• y dadleuon ynghylch sut mae Genghis Khan yn cael ei gofio, gan gynnwys:<br>  • maint y dinistr a achoswyd ganddo<br>  • yr heddwch, y sefydlogrwydd, y goddefgarwch a'r amrywiaeth a ddygodd i'r bobloedd yn ei ymerodraeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **2.2 Y Pla Du tua 1330 – tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yn yr oesoedd canol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:<br><br>2.2.1 Sut roedd clefydau'n llwyddo i ledaenu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg<br>2.2.2 Lledaeniad y Pla Du<br>2.2.3 Ymdrechion i atal clefydau rhag lledaenu<br>2.2.4 Ymatebion i ledaeniad clefydau<br>2.2.5 Gwaddol y Pla Du | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: Plâu a'u heffaith ar gymdeithas ddynol | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• gefndir y Pla Du, nifer o achosion hanesyddol eraill o'r pla a'r gwahaniaeth rhwng pla biwbonig, niwmonig a septicaemig.<br>• pwysigrwydd epidemioleg pandemigau o'r pla, yr achosion, y symptomau, cwrs a chyfraddau marwolaethau y plâu a'r dadleuon ynghylch math a tharddiad y Pla Du. |
| 2.2.1 Sut roedd clefydau'n llwyddo i ledaenu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pwysigrwydd llwybrau masnach wrth helpu clefydau i ledaenu, gan gynnwys:<br>  ◦ y Llwybr Sidan<br>  ◦ cynyddu rhyngweithiadau masnachol a diwylliannol<br>• bywyd yn y Dwyrain Agos, Gogledd Affrica ac Ewrop ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, gan gynnwys:<br>  ◦ amodau byw a safonau hylendid<br>  ◦ teithio a chyswllt rhwng cymunedau. |
| 2.2.2 Lledaeniad y Pla Du | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut y lledaenodd y Pla Du yn ddaearyddol, gan gynnwys:<br>  ◦ ei ddyfodiad i'r Dwyrain Agos ac ardal Môr y Canoldir<br>  ◦ ei ledaeniad i'r gogledd a'r gorllewin<br>• effaith y Pla Du ar ganolbarth, gorllewin a gogledd Ewrop, gan gynnwys:<br>  ◦ ei effaith ar gymunedau trefol<br>  ◦ ei effaith ar gymunedau gwledig. |
| 2.2.3 Ymdrechion i atal clefydau rhag lledaenu | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• defnyddio strategaethau i leihau cyfraddau'r haint, gan gynnwys:<br>  ◦ ymdrechion i wella amodau byw<br>  ◦ cadw pellter cymdeithasol ac ynysu<br>• pwysigrwydd ymdrechion i ddiogelu unigolion a theuluoedd, gan gynnwys:<br>  ◦ defnyddio arferion ofergoelus fel gwisgo swyn dlysau a fflangellu.<br>  ◦ gwneud penyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.2.4 Ymatebion i ledaeniad clefydau | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• ymateb unigolion i'r Pla Du, gan gynnwys:<br>  • sioc, galar ac euogrwydd yn sgil effaith y pla<br>  • yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n ceisio symud ymlaen o brofedigaeth<br>• ymateb cymdeithasau i'r Pla Du, gan gynnwys:<br>  • ymdrechion i resymoli a dod o hyd i fychod dihangol<br>  • gwrthwynebiad grwpiau elitaidd i ddeddfwriaeth a rheolaeth. |
| 2.2.5 Gwaddol y Pla Du | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pwysigrwydd cost gymdeithasol y Pla Du, gan gynnwys:<br>  • amcangyfrifon o gyfraddau marwolaethau<br>  • effaith marwolaeth a chlefydau ar deuluoedd, cymunedau a chredoau<br>• cost ehangach y Pla Du, gan gynnwys:<br>  • ei effaith economaidd<br>  • ei effaith wleidyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern Cynnar**

| **2.3 Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd modern cynnar** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>2.3.1 Sbaen yn ehangu i'r "Byd Newydd"<br>2.3.2 Gwareiddiad yr Asteciaid<br>2.3.3 Hernán Cortés<br>2.3.4 Trechu'r Asteciaid<br>2.3.5 Effeithiau concwest Sbaen | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: datblygiad fforio o Benrhyn Iberia | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• rym Sbaen a Phortiwgal, a chwilio am lwybrau newydd i Asia<br>• rôl Isabella o Castile a Ferdinand o Aragón wrth gefnogi mordeithiau darganfod ac agweddau tuag at Bobloedd Brodorol a Chytundeb Tordesillas, 1494. |
| 2.3.1 Sbaen yn ehangu i'r "Byd Newydd" | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y rhesymau dros ehangiad Sbaen i wledydd tramor, gan gynnwys:<br>  ◦ newidiadau gwleidyddol, economaidd a chrefyddol<br>  ◦ datblygiadau technegol ym maes mordeithio a chreu mapiau<br>• concwest Sbaen o'r Caribî, gan gynnwys:<br>  ◦ pobloedd y Caribî – ecsbloetio'r bobl a'r tir<br>  ◦ rhesymau dros ehangiad Sbaen i México. |
| 2.3.2 Gwareiddiad yr Asteciaid | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• prif nodweddion gwareiddiad yr Asteciaid, gan gynnwys:<br>  ◦ dulliau rheoli, credoau, teyrngedau, codecsau ac aberth<br>  ◦ cyfoeth, amaethyddiaeth, masnach a rhyfela<br>• pwysigrwydd Tenochtitlan, gan gynnwys:<br>  ◦ ardaloedd o'r ddinas<br>  ◦ y cyffin sanctaidd. |
| 2.3.3 Hernán Cortés | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• rôl Cortés yng nghoncwest yr Asteciaid, gan gynnwys:<br>  ◦ cysylltiadau â Velazquez<br>  ◦ ymgyrch Cortés i México<br>• y berthynas â'r Bobloedd Brodorol, gan gynnwys:<br>  ◦ rôl Malinche<br>  ◦ cynghreiriau ac anghydfodau gyda phobloedd brodorol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.3.4 Trechu'r Asteciaid | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pridwerth Moctezuma II, gan gynnwys:<br>  • alltudio'r Sbaenwyr<br>  • gwarchae Tenochtitlan<br>• trechu'r Asteciaid, gan gynnwys:<br>  • cwymp Tenochtitlan<br>  • sefydlu Ciudad de México. |
| 2.3.5 Effeithiau concwest Sbaen | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith gymdeithasol a diwylliannol y goncwest ar yr Asteciaid, gan gynnwys:<br>  • triniaeth Pobloedd Brodorol ac effaith clefydau<br>  • newidiadau diwylliannol a gorfodi Cristnogaeth<br>• effaith economaidd a gwleidyddol y goncwest, gan gynnwys:<br>  • yr effaith ar yr Asteciaid, fel y system encomienda ac awdurdod brenhinol<br>  • yr effaith ar Ewrop, gan gynnwys cynnydd mewn masnach, cyfoeth a chanlyniadau chwyddiant. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **2.4 Süleyman I tua 1520 – tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>2.4.1 Sefydlu awdurdod Süleyman<br>2.4.2 Ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd yn Ewrop yn yr 1520au<br>2.4.3 Ehangiad morwrol yr Ymerodraeth Otomanaidd<br>2.4.4 Arwyddocâd crefydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg<br>2.4.5 Teyrnasiad a gwaddol Süleyman I | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: yr Ymerodraeth Otomanaidd a dyfodiad Süleyman | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• natur a graddfa ddaearyddol yr Ymerodraeth Otomanaidd, a'i chydberthynas â'i chymdogion<br>• rheolau olyniaeth yn yr Ymerodraeth Otomanaidd, a hawl Süleyman i'r swltaniaeth. |
| 2.4.1 Sefydlu awdurdod Süleyman | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• rheolaeth Süleyman dros ei ymerodraeth, gan gynnwys:<br>  • ei briodoleddau personol, ei arweinyddiaeth, ei ddefnydd o ddirprwyaeth a'i lywodraeth, a'r defnydd o system Timar a'r drefn ffiwdal<br>  • rôl ac arwyddocâd Hürrem Sultan<br>• datblygiad y fyddin o dan Süleyman, gan gynnwys:<br>  • recriwtio, y Janisariaid a phwysigrwydd trethu<br>  • dulliau hyfforddi a dyrchafu. |
| 2.4.2 Ehangu'r Ymerodraeth Otomanaidd yn Ewrop yn yr 1520au | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• amcanion Süleyman ar ddechrau ei deyrnasiad, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros goncwest Belgrade yn 1521, ei phroses a'i chanlyniadau<br>  • y rhesymau dros goncwest Rhodes yn 1522, ei phroses a'i chanlyniadau<br>• datblygiad gweithgareddau Süleyman yn Ewrop, gan gynnwys:<br>  • y rhesymau dros Frwydr Mohács yn 1526, ei phroses a'i chanlyniadau<br>  • y rhesymau dros Warchae Vienna yn 1529, ei broses a'i ganlyniadau. |
| 2.4.3 Ehangiad morwrol yr Ymerodraeth Otomanaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut y datblygodd ac yr ehangodd Süleyman y llynges Otomanaidd, gan gynnwys:<br>  • rôl Barbarossa<br>  • arwyddocâd gornestau milwrol allweddol gan gynnwys Concwest Tunis (1534), methiant ymgyrch Algiers (1541) a gwarchae Malta (1565)<br>• effaith wleidyddol ac economaidd datblygiad y llynges, gan gynnwys:<br>  • perthynas yr Ymerodraeth Otomanaidd â Ffrainc<br>  • llwybrau masnach a'r Môr Coch. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 2.4.4 | Arwyddocâd crefydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• pam roedd crefydd yn achos anghydfod yn Ewrop, gan gynnwys:<br>  ◦ agweddau Sbaen tuag at Fwslimiaid<br>  ◦ canlyniadau gwleidyddol y mudiadau diwygio crefyddol mewn ardaloedd fel yr Almaen a'r Swistir<br>• y rhesymau dros oddefgarwch crefyddol yn yr Ymerodraeth Otomanaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ Süleyman yn cefnogi Islam<br>  ◦ yr amddiffyniad a roddwyd i Iddewon a Christnogion. |
| 2.4.5 | Teyrnasiad a gwaddol Süleyman I | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• yr heriau domestig a oedd yn wynebu'r Ymerodraeth Otomanaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ effaith newidiadau demograffig, prinder bwyd a chwyddiant<br>  ◦ cost rhyfel, y llywodraeth a'r llys brenhinol<br>• pam mae Süleyman yn cael ei ystyried yn rheolwr arwyddocaol, gan gynnwys:<br>  ◦ y rhesymau pam mae'n cael ei alw yn Süleyman y deddfroddwr, a beirniadaeth o'r teitl hwnnw<br>  ◦ y rhesymau pam mae'n cael ei alw yn Süleyman Ysblennydd, a beirniadaeth o'r teitl hwnnw. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern**

<table>
<tr><th colspan="2">2.5 Y Drydedd Reich tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>2.5.1 Atgyfnerthu'r Blaid Natsïaidd tua 1933–1934<br>2.5.2 Polisïau Cymdeithasol ac ar Sail Hil tua 1933– tua 1939<br>2.5.3 Polisïau Crefyddol ac Economaidd tua 1934– tua 1939<br>2.5.4 Effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl yr Almaen<br>2.5.5 Cwymp y Drydedd Reich a dad-Natsïeiddio</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>Cefndir: tarddiad a thwf y Blaid Natsïaidd</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r:<br>• rhesymau dros sefydlu Gweriniaeth Weimar a'r heriau oedd yn ei wynebu<br>• rhesymau dros ddatblygiad y Blaid Natsïaidd a'r gefnogaeth iddi, ac esgyniad Hitler i frig y Blaid.</td></tr>
<tr><td>2.5.1 Atgyfnerthu'r Blaid Natsïaidd tua 1933–1934</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y digwyddiadau a helpodd i atgyfnerthu safbwynt y Blaid Natsïaidd, gan gynnwys:<br>  • Tân y Reichstag a'r Ddeddf Alluogi<br>  • gwahardd y gwrthbleidiau<br>• sut daeth Hitler yn Führer yn 1934, gan gynnwys:<br>  • arwyddocâd marwolaeth Hindenburg<br>  • Noson y Cyllyll Hirion a llw teyrngarwch y lluoedd arfog i'r Blaid Natsïaidd.</td></tr>
<tr><td>2.5.2 Polisïau cymdeithasol ac ar sail hil tua 1933 – tua 1939</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sut y datblygodd polisïau ar sail hil o dan y Natsïaid, gan gynnwys:<br>  • gwrth-Semitiaeth, yr hil Ariaidd, Cyfreithiau Nürnberg (Nuremberg) oedd yn cael eu plismona gan yr SS a'r Gestapo<br>  • Kristallnacht ac allfudo<br>• sut y datblygodd polisïau cymdeithasol o dan y Natsïaid, gan gynnwys:<br>  • propaganda, sensoriaeth, mudiadau ieuenctid a pholisïau addysg<br>  • newid bywydau pobl sydd ddim yn hoff o gymdeithasu, menywod, ieuenctid a gweithwyr.</td></tr>
<tr><td>2.5.3 Polisïau Crefyddol ac Economaidd tua 1934 – tua 1939</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• newid polisïau yn ymwneud â chrefydd gan gynnwys:<br>  • y Concordat gyda'r Eglwys Gatholig, yr ymateb o fewn yr Eglwys Brotestannaidd a datblygiad yr Eglwys Gyffes<br>  • datblygiad Eglwys Genedlaethol y Reich<br>• y newidiadau a'r polisïau economaidd a roddwyd ar waith i sefydlu awtarchiaeth gan gynnwys:<br>  • yr economi o dan Schacht<br>  • yr economi o dan Göring a'r Cynllun Pedair Blynedd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 2.5.4 | Effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl yr Almaen | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith y rhyfel ar fywydau pobl yr Almaen rhwng 1939 a 1941, gan gynnwys:<br>  • y newid yn rôl menywod<br>  • propaganda rhyfel<br>• sut yr arweiniodd bomio'r Cynghreiriaid at 'ryfel diarbed' a'i effaith ar fywydau pobl yr Almaen, gan gynnwys:<br>  • gwrthwynebiad pobl ifanc i'r Natsïaid, gan gynnwys Grŵp y Rhosyn Gwyn; grwpiau a phobl grefyddol, gan gynnwys Martin Niemöller a Dietrich Bonhoeffer; ac adrannau o'r fyddin, gan gynnwys Ymgyrch Valkyrie<br>  • yr Ateb Terfynol. |
| 2.5.5 | Cwymp y Drydedd Reich a dad-Natsïeiddio | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• Berlin yn ildio a chwymp y Drydedd Reich, gan gynnwys:<br>  • dwysáu bomio'r cynghreiriaid a goresgyniad y Fyddin Goch<br>  • marwolaeth Hitler a'r Almaen yn ildio yn 1945<br>• dad-Natsieiddio gan gynnwys:<br>  • diddymu a gwahardd y Blaid Sosialaidd Genedlaethol<br>  • Treialon Nürnberg, 1945. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">2.6 Afghanistan tua 1979 – tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>2.6.1 Y Sofietiaid yn goresgyn Afghanistan 1979–1989<br>2.6.2 Canlyniadau diwedd y rhyfel<br>2.6.3 Esgyniad Al-Qaeda<br>2.6.4 Al-Qaeda yn targedu Unol Daleithiau America fel canolbwynt grym y Gorllewin<br>2.6.5 Y "Rhyfel Byd-eang ar Derfysgaeth”</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>Cefndir: Afghanistan, ei chydberthynas â'r Gorllewin a goblygiadau'r gydberthynas honno i'r rhanbarth</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• pwysigrwydd daearyddol, hanesyddol a strategol Afghanistan ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i chydberthynas â'r Gorllewin<br>• y newid yn y sefyllfa yn yr 1970au gyda dymchweliad brenhiniaeth Zahir Shah (1973) a llywodraeth yr Arlywydd Daoud Khan (1978), pryderon cynyddol ymysg y Sofietiaid am weithredoedd Unol Daleithiau America yn Afghanistan ac ideolegau'n gwrthdaro ar y llwyfan rhyngwladol.</td></tr>
<tr><td>2.6.1 Y Sofietiaid yn goresgyn Afghanistan 1979–1989</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y goresgyniad o safbwynt y Sofietiaid yn erbyn safbwynt y Mujahideen, gan gynnwys:<br>  ○ cefnogaeth yr Undeb Sofietaidd i Athrawiaeth Brezhnev (1968) i gefnogi cyfundrefnau Comiwnyddol dan fygythiad<br>  ○ credoau crefyddol a diwylliannol y Mujahideen, eu barn ynglŷn â'r Sofietiaid a'r gefnogaeth filwrol a roddwyd iddynt gan Unol Daleithiau America<br>• o Ryfel Cartref i Ryfel Dirprwyol, gan gynnwys:<br>  ○ diwedd détente a SALT II ac effaith hynny ar y berthynas ag Afghanistan<br>  ○ Strategaethau Sofietaidd (brawychu, tanseilio, cuddwybodaeth, chwilio a dinistrio) o'u cymharu â thactegau'r Mujahideen (tactegau gerila a chefnogaeth Unol Daleithiau America drwy daflegrau gwrthawyrennol).</td></tr>
<tr><td>2.6.2 Canlyniadau diwedd y rhyfel</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y rhesymau dros dynnu milwyr Sofietaidd yn ôl yn 1989 ac arwyddocâd hynny, gan gynnwys:<br>  ○ cyfraddau anafiadau a marwolaethau, colledion ariannol a materion cysylltiadau cyhoeddus yn yr Undeb Sofietaidd ac Afghanistan<br>  ○ i ba raddau y cyfrannodd hynny at gwymp yr Undeb Sofietaidd yn 1991<br>• y cysylltiadau rhwng diwedd y rhyfel ac ansefydlogrwydd cynyddol, gan gynnwys:<br>  ○ ffoaduriaid yn ffoi, a materion hawliau sifil a dynol, yn ymwneud â menywod yn arbennig<br>  ○ y sefyllfa wleidyddol yn dwysáu a chamau gweithredu'r DU yn y Dwyrain Canol</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.6.3 Esgyniad Al-Qaeda | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• trefniadaeth Al-Qaeda o 1988 ymlaen, gan gynnwys:<br>  • cefnogaeth i Al-Qaeda o fewn a thu hwnt i Afghanistan<br>  • Cynghrair y Gogledd yn ystod rheolaeth pum mlynedd y Taliban dros Afghanistan, 1996–2001<br>• rôl Osama Bin Laden gan gynnwys:<br>  • ei gefnogaeth i'r Mujahideen<br>  • symud i Afghanistan yn 1996. |
| 2.6.4 Al-Qaeda yn targedu Unol Daleithiau America fel canolbwynt grym y Gorllewin | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y nifer cynyddol o ymosodiadau ar gyfleusterau a buddiannau milwrol Unol Daleithiau America, gan gynnwys:<br>  • bomio Canolfan Masnach y Byd yn 1993, a llysgenadaethau Unol Daleithiau America yn Dar es Salaam a Nairobi yn 1998<br>  • bomio USS Cole yn Aden yn 2000<br>• yr ymosodiadau ar Ganolfan Masnach y Byd a'r Pentagon ar 9/11, gan gynnwys:<br>  • arwyddocâd y targedau<br>  • data ystadegol ar gyfraddau marwolaethau ac anafiadau, ac arwyddocâd adroddiadau o brofiad personol. |
| 2.6.5 Y "Rhyfel Byd-eang ar Derfysgaeth" | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• yr ymateb i 9/11, gan gynnwys:<br>  • Ymgyrch Rhyddid Parhaus (*Operation Enduring Freedom*), 7 Hydref 2001<br>  • cynrychioliad yn y cyfryngau a'r effaith ar ganfyddiadau hiliol yn UDA<br>• Afghanistan yn 2001, gan gynnwys:<br>  • cyfundrefn y Taliban<br>  • Bin Laden yn dianc i Pakistan. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 3

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw cynnig trosolwg o gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol.

Gall canolfannau ddewis un o'r tri chyfnod astudio: oesoedd canol, modern cynnar neu fodern, heb ailadrodd cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 1 neu 2. Bydd canolfannau'n dewis un o ddau opsiwn yn ystod y cyfnod.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 3.1 | Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 |
| | 3.2 | Y Croesgadau, tua 1095 – tua 1291 |
| Modern Cynnar | 3.3 | Yr Ymerodraeth Songhai, tua 1464 – tua 1591 |
| | 3.4 | Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526 – tua 1707 |
| Modern | 3.5 | Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953 |
| | 3.6 | Newidiadau yng nghymdeithas Unol Daleithiau America, tua 1880 – tua 1980 |

**Meysydd cynnwys**

| Pob opsiwn |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe phwnc hanesyddol i gynnal astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd.<br><br>Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.<br><br>Dylai dysgwyr hefyd allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:<br>• parhad a newid<br>• nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol<br>• arwyddocâd ac effaith<br>• achos a chanlyniad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Yr Oesoedd Canol

| 3.1 Y Llychlynwyr, tua 750–1066 | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>3.1.1 Dylanwad ehangiad y Llychlynwyr tua'r dwyrain<br>3.1.2 Effaith ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin<br>3.1.3 Maint ehangiad y Llychlynwyr o gwmpas gogledd yr Iwerydd<br>3.1.4 Sefydlu rheolaeth y Llychlynwyr dros y Prydeinwyr yn Rhanbarth y Daniaid<br>3.1.5 Diwedd rheolaeth Denmarc ar dir mawr Prydain<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd ac y datblygodd ehangiad y Llychlynwyr yn ystod y cyfnod rhwng tua 750 a thua 1066. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: mamwlad y Llychlynwyr yn yr wythfed ganrif | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• amgylchedd Llychlyn yn yr wythfed ganrif<br>• natur cymdeithas a chredoau'r Llychlynwyr. |
| 3.1.1 Dylanwad ehangiad y Llychlynwyr tua'r dwyrain | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sefydlu aneddiadau Llychlynnaidd yn nhiriogaethau'r Rus, gan gynnwys:<br>  ◦ Staraya Ladoga<br>  ◦ Novgorod a Kyiv<br>• maint y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr â'r byd Arabaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ cyswllt â Baghdad<br>  ◦ masnachu ar hyd y Llwybr Sidan<br>• pwysigrwydd y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr a'r Ymerodraeth Fysantaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ cyswllt â Chaergystennin<br>  ◦ eu rôl yn y Gwarchodlu Farangaidd. |
| 3.1.2 Effaith ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith ymosodiadau'r Llychlynwyr ar dir mawr Prydain, gan gynnwys:<br>  ◦ cyrchoedd ar gymunedau arfordirol a mynachlogydd<br>  ◦ cyrch Ynys Sheppey yn 835<br>• dylanwad gweithgareddau'r Llychlynwyr yn Iwerddon, gan gynnwys:<br>  ◦ canolfannau ag amddiffynfeydd gan gynnwys Dulyn<br>  ◦ eu rhan yn rhyfeloedd Brenhinoedd Iwerddon<br>• effeithiau brwydrau'r Llychlynwyr yn erbyn Ffrainc a Sbaen, gan gynnwys:<br>  ◦ cyrchoedd ar yr Ymerodraeth Ffrancaidd<br>  ◦ cyrchoedd ar Sbaen. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.3 | Maint ehangiad y Llychlynwyr o gwmpas gogledd yr Iwerydd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• sefydlu aneddiadau Llychlynnaidd yng Ngwlad yr Iâ, gan gynnwys:<br>  • rôl Hrafna-Flóki Vilgerðarson<br>  • yr Althing a chymdeithas Gwlad yr Iâ<br>• natur anheddiad yr Ynys Las, gan gynnwys:<br>  • Eric Goch<br>  • aneddiadau'r gorllewin a'r dwyrain<br>• fforio arfordir Gogledd America, gan gynnwys:<br>  • Leif Erikson<br>  • y Leifsbudir yn Vinland. |
| 3.1.4 | Sefydlu rheolaeth y Llychlynwyr yn Rhanbarth y Daniaid ar dir mawr Prydain | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• natur rhyfela'r Llychlynwyr, gan gynnwys:<br>  • tactegau brwydro ar y tir ac ar y môr<br>  • rôl menywod a'r ddadl am ryfelwragedd<br>• y Llychlynwyr yn goresgyn tir mawr Prydain, gan gynnwys:<br>  • y Fyddin Fawr Baganaidd<br>  • heddwch rhwng y Llychlynwyr a theyrnas Eingl-Sacsonaidd Wessex<br>• bywyd ym Mhrydain y Llychlynwyr<br>  • natur a maint Rhanbarth y Daniaid<br>  • anheddiad Llychlynnaidd Jorvik. |
| 3.1.5 | diwedd rheolaeth Denmarc ar ynys Prydain Fawr | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y newidiadau yn agweddau Llychlynwyr Denmarc, gan gynnwys:<br>  • Harald Bluetooth a'i dröedigaeth Gristnogol<br>  • yr ymateb i Gyflafan Gŵyl Sant Bricius<br>• sefydlu a dymchwel yr Ymerodraeth Eingl–Lychlynnaidd (Môr y Gogledd), gan gynnwys:<br>  • teyrnasiad Svein Forkbeard<br>  • teyrnasiad Cnut<br>• yr olaf o reolwyr y Llychlynwyr, gan gynnwys:<br>  • Harthacnut<br>  • Harald Hardrada a Brwydr Stamford Bridge. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Y Croesgadau tua 1095 – tua 1291

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

3.2.1 Y Groesgad Gyntaf
3.2.2 Yr Ail Groesgad
3.2.3 Y Drydedd Groesgad
3.2.4 Datblygiadau yn y Croesgadau diweddarach
3.2.5 Canlyniadau'r Croesgadau

gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd ac y datblygodd y Croesgadau yn ystod y cyfnod rhwng tua 1095 a thua 1291.

<table>
<tr><th>Cynnwys</th><th>Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><td>Cefndir: Y Dwyrain Agos yn yr unfed ganrif ar ddeg</td><td>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<ul><li>natur Cristnogaeth yr unfed ganrif ar ddeg yng ngorllewin Ewrop</li><li>maint dylanwad y Mwslimiaid yn y Dwyrain Canol a'r Ymerodraeth Fysantaidd.</li></ul></td></tr>
<tr><td>3.2.1 Y Groesgad Gyntaf</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>sut y daeth y Groesgad Gyntaf i gael ei threfnu, gan gynnwys:<ul><li>cais Bysantiwm am gefnogaeth filwrol</li><li>y Pab Urban II a Chyngor Clermont</li></ul></li><li>digwyddiadau cynnar y Groesgad Gyntaf, gan gynnwys:<ul><li>Croesgad y Bobl a'r ymosodiadau ar Iddewon yn Ewrop</li><li>ail-gipio Nicaea a gwarchae Antioch</li></ul></li><li>pwysigrwydd Jerwsalem, gan gynnwys:<ul><li>digwyddiadau gwarchae a chipio Jerwsalem</li><li>lladd Mwslimiaid ac Iddewon.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>3.2.2 Yr Ail Groesgad</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>sut y sefydlwyd rhanbarth Outremer y Croesgadwyr, gan gynnwys:<ul><li>teyrnasoedd y Croesgadwyr yn Edessa, Antioch, Jerwsalem a Tripoli</li><li>rolau urddau milwrol y croesgadwyr, Marchogion y Deml a'r Marchogion Ysbytaidd</li></ul></li><li>her y Mwslimiaid i'r Croesgadau, gan gynnwys:<ul><li>y lluoedd milwrol Mwslimaidd</li><li>cipio Teyrnas Edessa yn 1144</li></ul></li><li>prif ddigwyddiadau'r Ail Groesgad, gan gynnwys<ul><li>arweinyddiaeth Louis VII o Ffrainc a Conrad III o'r Almaen</li><li>methiant gwarchae Damascus.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.3 | Y Drydedd Groesgad | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• her Salah ad-Din i reolaeth y Croesgadwyr yn y Tir Sanctaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ brwydr Hattin<br>  ◦ cipio Jerwsalem<br>• llwyddiannau ymgyrch Rhisiart I yn y Tir Sanctaidd, gan gynnwys:<br>  ◦ gwarchae Acre 1189 i 1191<br>  ◦ brwydr Arsuf<br>• cyrraedd sefyllfa nad oedd modd ei datrys yn y pen draw rhwng lluoedd Salah ad-Din a Rhisiart I, gan gynnwys:<br>  ◦ Cytundeb Jaffa<br>  ◦ yr effaith ar enw da Rhisiart I a Salah ad-Din. |
| 3.2.4 | Datblygiadau yn y Croesgadau diweddarach | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• prif ddigwyddiadau'r Bedwaredd Groesgad, gan gynnwys:<br>  ◦ gweithredoedd Gweriniaeth Fenis<br>  ◦ yr ymosodiad ar Gaergystennin<br>• yr ymdrechion i adfer Jerwsalem, gan gynnwys:<br>  ◦ y Bumed Groesgad a gwarchae Damietta<br>  ◦ y Chweched Groesgad a rheolaeth dros Jerwsalem<br>• digwyddiadau Croesgad y Barwniaid, gan gynnwys:<br>  ◦ buddugoliaeth y Mwslimiaid yn Gaza<br>  ◦ adfer Teyrnas Jerwsalem. |
| 3.2.5 | Canlyniadau'r Croesgadau | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• tynged teyrnasoedd y Croesgadwyr, gan gynnwys:<br>  ◦ rhyfel cartref yn Outremer<br>  ◦ gwarchae Acre 1291<br>• y rhesymau dros ganlyniadau'r Croesgadau, gan gynnwys:<br>  ◦ rhaniadau ymhlith rheolwyr Cristnogol<br>  ◦ ymgyrchoedd milwrol effeithiol gan arweinwyr Mwslimaidd<br>• effaith y Croesgadau yn y Dwyrain a'r Gorllewin, gan gynnwys:<br>  ◦ polareiddio crefyddol<br>  ◦ defnyddio crefydd i gyfiawnhau amcanion gwleidyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern Cynnar**

| **3.3 Ymerodraeth Songhai tua 1464 – tua 1591** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>3.3.1 Ymerodraeth gynnar Songhai o dan Linach Sonni<br>3.3.2 Rheolaeth Askia Muhammad tua 1493–1528<br>3.3.3 Oes Aur Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg<br>3.3.4 Bywyd yn Ymerodraeth Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg<br>3.3.5 Dirywiad a chwymp Ymerodraeth Songhai<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd ac y datblygodd Ymerodraeth Songhai yn ystod y cyfnod rhwng tua 1464 a thua 1591. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: sefydlu teyrnas Songhai yn yr Oesoedd Canol | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• cyd-destun daearyddol, masnachol a chrefyddol Gorllewin Affrica<br>• dirywiad Ymerodraeth Mali a tharddiad Ymerodraeth Songhai |
| 3.3.1 Ymerodraeth gynnar Songhai o dan Linach Sonni | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• Sonni Ali a'i arweinyddiaeth dros Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<br>  • ei linach a'i esgyniad i rym<br>  • ei gredoau crefyddol a'i berthynas â'r ysgolheigion Islamaidd<br>• pwysigrwydd ymgyrchoedd milwrol Sonni Ali, gan gynnwys:<br>  • strategaethau a thactegau<br>  • cipio Timbuktu yn 1468 a Djenné yn 1472, a'u pwysigrwydd<br>• natur ac effaith rheolaeth Sonni, gan gynnwys:<br>  • ei arddull hyblyg wrth arwain a phwysigrwydd cynhwysiant i sefydlogrwydd Ymerodraeth Songhai<br>  • ei farwolaeth yn 1492 a diwedd Llinach Sonni dan Sonni Baru ym Mrwydr Anfao, 1493. |
| 3.3.2 Llinach Askia, 1493–1528 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• dyfodiad Askia Muhammad gan gynnwys:<br>  • ei fywyd cynnar a'i addysg helaeth<br>  • ei esgyniad i rym drwy'r rhengoedd<br>• rheolaeth Muhammad, gan gynnwys:<br>  • dymchwel Sonni Baru<br>  • hyrwyddo addysg Islamaidd a chyfraith Sharia<br>• diwygiadau gweinyddol o dan Askia Muhammad, gan gynnwys:<br>  • newid gwleidyddol a gweinyddol; gan gynnwys gweinyddiaeth wedi'i ganoli, rôl swyddogion allweddol a hyrwyddo meritocratiaeth<br>  • datblygiadau ym maes trefniadaeth filwrol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 3.3.3 | Oes Aur Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• ffyniant economaidd yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>  ◦ arwyddocâd y llwybrau masnach ar draws y Sahara, yn economaidd ac yn ddiwylliannol, gan gynnwys y fasnach mewn caethweision<br>  ◦ pwysigrwydd canolfannau marchnad gan gynnwys Gao, Timbuktu a rôl y system arian cyfred<br>• datblygiadau diwylliannol a deallusol, gan gynnwys:<br>  ◦ datblygiadau ym maes barddoniaeth, llenyddiaeth a gwyddoniaeth gan gynnwys pwysigrwydd llawysgrifau<br>  ◦ Timbuktu a Djenné fel canolfannau dysg, gan gynnwys datblygiad llyfrgelloedd<br>• datblygiadau milwrol o dan linach Askia, gan gynnwys:<br>  ◦ pwysigrwydd yr ymrwymiad i Islam wrth uno'r fyddin<br>  ◦ rhannu byddin Songhai yn adrannau, ei harbenigedd a'i phroffesiynoldeb. |
| 3.3.4 | Bywyd yn Ymerodraeth Songhai yn yr unfed ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• trefniadaeth gymdeithasol Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<br>  ◦ trefnu pobl yn ôl dosbarth cymdeithasol<br>  ◦ rôl menywod gan gynnwys gwaith crefft a gwaith crefftus<br>• diwylliant pobl Songhai, gan gynnwys:<br>  ◦ pwysigrwydd dawns draddodiadol, dillad, celf y corff, cerddoriaeth ac adrodd straeon<br>  ◦ digwyddiadau arbennig fel Gŵyl Gani a Gŵyl Askia<br>• arwyddocâd caethwasiaeth, gan gynnwys:<br>  ◦ y rhesymau dros gaethwasiaeth yn yr ymerodraeth fel cipio wrth ryfela neu i dalu dyled<br>  ◦ sut y defnyddiwyd caethwasiaeth o ran llafur a statws cymdeithasol i'r dosbarthiadau uwch. |
| 3.3.5 | Dirywiad a chwymp Ymerodraeth Songhai | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith problemau yn yr arweinyddiaeth, gan gynnwys:<br>  ◦ problemau olyniaeth a wynebwyd ar ôl marwolaeth Askia Daoud<br>  ◦ pwysigrwydd cystadlaethau rhanbarthol gan gynnwys llywodraethwyr a rheolwyr milwrol<br>• y ffactorau economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar lwyddiant yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>  ◦ dirywiad y llwybrau masnach<br>  ◦ effaith sychder a newyn<br>• bygythiad Morocco a chwymp Ymerodraeth Songhai, gan gynnwys:<br>  ◦ Mantais Morocco a Brwydr Tondibi, 1591<br>  ◦ effaith dinistrio Timbuktu a rhannu tiriogaeth Songhai a ffurfio teyrnasoedd llai. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 3.4 Yr Ymerodraeth Mughal, tua 1526 – tua 1707 | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>3.4.1 O Babur i Humayan, tua 1526–1556<br>3.4.2 Akbar ac ehangu'r Ymerodraeth Mughal, 1556–1605<br>3.4.3 Ehangu a sefydlogrwydd dan reolaeth Jahangir, 1605–1627<br>3.4.4 Rheolaeth Shah Jahan, 1627–1657<br>3.4.5 Aurangzeb a diwedd yr Ymerodraeth Mughal, 1657–1707<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd ac y datblygodd yr Ymerodraeth Mughal yn ystod y cyfnod rhwng tua 1526 a thua 1707. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: tarddiad yr Ymerodraeth Mughal | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• tarddiad y Mughal yng nghanolbarth Asia a'r rhesymau dros eu lledaeniad i Dde Asia<br>• daearyddiaeth, crefyddau a diwylliannau'r rhanbarth a ddaeth i gael ei hadnabod fel "Hindustan" (isgyfandir India). |
| 3.4.1 O Babur i Humayan, tua 1526–1556 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• arwyddocâd Babur, gan gynnwys:<br>  ◦ ei ymgyrchoedd milwrol, gan gynnwys Brwydr Gyntaf Panipat, a sefydlu'r Ymerodraeth Mughal<br>  ◦ ei gyfraniad at ddatblygiad yr Ymerodraeth Mughal a'i diwylliant, a'r heriau oedd yn wynebu'r Ymerodraeth yn dilyn ei farwolaeth<br>• rheol gyntaf Humayun, gan gynnwys:<br>  ◦ yr heriau a wynebodd wrth reoli'r Ymerodraeth<br>  ◦ diwylliant, credoau a threfniadaeth yr Ymerodraeth gynnar<br>• Humayun yn colli ac ailsefydlu'r Ymerodraeth Mughal, gan gynnwys:<br>  ◦ Brwydr Kannauj, 1540 ac alltudiaeth Humayun<br>  ◦ arwyddocâd ail-gipio Delhi, 1555 ac atgyfnerthu grym Humayun. |
| 3.4.2 Akbar ac ehangu'r Ymerodraeth Mughal 1556–1605 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• concwestau milwrol Akbar, gan gynnwys:<br>  ◦ Rajasthan a Brwydr Chittorgarh, 1567<br>  ◦ ehangu ymhellach rhwng 1570 a 1605<br>• y system weinyddol a'r llysoedd, gan gynnwys:<br>  ◦ gwersylloedd Ymerodrol yn Agra, Fatehpur Sikri a Lahore<br>  ◦ rôl swyddogion y Mughal a dulliau cynhyrchu refeniw<br>• credoau Akbar, gan gynnwys:<br>  ◦ egwyddorion allweddol ei ffydd grefyddol<br>  ◦ arwyddocâd goddefgarwch crefyddol yn yr ymerodraeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| 3.4.3 | Ehangu a sefydlogrwydd o dan Jahangir, 1605–1627 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• dylanwad ei brif gonsort, Nur Jahan, gan gynnwys:<br>  • cefndir Nur Jahan a'i hesgyniad i rym<br>  • ei rôl ym maes gweinyddu a gwneud penderfyniadau<br>• economi y Mughal oedd yn datblygu a chymdeithas y Mughal, gan gynnwys:<br>  • masnachu ag Ewrop ac atebion i broblemau masnachu<br>  • y gymdeithas drefol a gwledig, y dosbarthiadau canol, menywod a masnachwyr<br>• noddi'r celfyddydau, gan gynnwys:<br>  • datblygu themâu artistig newydd fel symbolaeth, natur a phortreadau o ganlyniad i ddylanwadau Ewropeaidd<br>  • datblygiad miniaturau y Mughal. |
| 3.4.4 | Rheolaeth Shah Jahan 1627–1657 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• natur rheolaeth Shah Jahan, gan gynnwys:<br>  • moethusrwydd ei lys a'i ffordd ysblennydd o fyw<br>  • effaith methiant cnydau ar amodau byw pobl<br>• llwyddiannau diwylliannol a phensaernïol, gan gynnwys:<br>  • effaith goddefgarwch crefyddol a meithrin cytgord crefyddol<br>  • y prif ddatblygiadau yng nghelfyddyd a phensaernïaeth y Mughal gan gynnwys y Taj Mahal a dinas Delhi<br>• ehangiad a pharhad yr ymerodraeth, gan gynnwys:<br>  • rhyfeloedd i ehangu'r ymerodraeth rhwng 1629 a 1653<br>  • effaith y rhyfeloedd olyniaeth rhwng Dara Shikoh ac Aurangzeb ar yr ymerodraeth. |
| 3.4.5 | Aurangzeb a diwedd yr Ymerodraeth Mughal 1657–1707 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• effaith duwioldeb crefyddol Aurangzeb, gan gynnwys:<br>  • ei weithredoedd cynnar fel rheolwr, datrys gwrthdaro teuluol a'i ffordd o fyw<br>  • gorfodaeth lwyr o gyfraith Sharia ac atal crefyddau eraill<br>• yr ymdrechion i gryfhau'r ymerodraeth gan gynnwys:<br>  • dulliau rheoli yn y gogledd a'r de drwy ddiwygio'r broses weinyddu, ymatebion i wrthryfeloedd ac ymgyrchoedd milwrol.<br>  • y bygythiadau oedd yn wynebu Aurangzeb gan wrthryfeloedd rhanbarthol a gwladwriaethau yn ymwahanu o 1668 ymlaen<br>• achosion dirywiad y Mughal, gan gynnwys:<br>  • canlyniadau'r ymgyrchoedd yn erbyn y Maratha yn Llwyfandir Deccan o 1681 ymlaen<br>  • cyflwr yr ymerodraeth pan fu farw Aurangzeb. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Modern**

### 3.5 Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:

3.5.1 Rheolaeth a dymchweliad Nicholas II
3.5.2 Y Chwyldro Bolsiefigaidd
3.5.3 Rheolaeth Lenin
3.5.4 Stalin
3.5.5 Yr Ail Ryfel Byd a'i effeithiau

gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y datblygodd Rwsia ac, yn ddiweddarach, yr Undeb Sofietaidd yn ystod y cyfnod rhwng tua 1861 a thua 1953.

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| Cefndir: Tsaraeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddaearyddiaeth, llywodraeth a chymdeithas Rwsia ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg<br>• teyrnasiad Alexander II a Alexander III. |
| 3.5.1 Rheolaeth a dymchweliad Nicholas II. | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• natur yr heriau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn ystod teyrnasiad Nicholas, gan gynnwys:<br>  ◦ y cefndir domestig i'r Rhyfel rhwng Rwsia a Japan, Sul y Gwaed a Chwyldro 1905<br>  ◦ maint a chyfyngiadau'r diwygio gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol<br>• sut y cyfrannodd y Rhyfel Byd Cyntaf at chwalu cyfundrefn y Tsar, gan gynnwys:<br>  ◦ penderfyniad Nicholas i reoli'r rhyfel yn bersonol a dylanwad Rasputin dros y Tsarina, Alexandra<br>  ◦ Chwyldro Mawrth [Chwefror] 1917 ac ymddiorseddiad Nicholas<br>• effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Rwsia, gan gynnwys:<br>  ◦ chwalfa cymdeithasol ac economaidd a phrinder hanfodion sylfaenol<br>  ◦ twf Sofiet Petrograd a Lenin yn dychwelyd i Rwsia ar ôl cyfnod fel alltud. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.5.2 Y Chwyldro Bolsiefigaidd | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• digwyddiadau allweddol Chwyldro Bolsiefigaidd 1917, gan gynnwys:<br>  ◦ Dyddiau Gorffennaf a chwymp y Llywodraeth Dros Dro.<br>  ◦ y cyrch ar y Palas Gaeaf<br>• cwrs y Rhyfel Cartref, gan gynnwys:<br>  ◦ gwendidau a rhaniadau'r Gwynion ac effeithiau ymyrraeth gan wledydd tramor<br>  ◦ effeithiolrwydd Trotsky fel Commissar dros Ryfel a'r rhesymau y tu ôl i'r fuddugoliaeth gomiwnyddol<br>• pogromau yn ystod Chwyldro 1917 gan gynnwys:<br>  ◦ cefndir y grwpiau lleiafrifol ethnig a sut y cawsant eu trin<br>  ◦ trais gwrth-Semitig. |
| 3.5.3 Rheolaeth Lenin | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• polisi Comiwnyddiaeth Ryfel, gan gynnwys:<br>  ◦ gormes a meddiant gorfodol<br>  ◦ gwrthwynebiad cynyddol i'r system; Gwrthryfel Tambov<br>• newyn 1921–1922, gan gynnwys:<br>  ◦ sychder, cynaeafau gwael a nifer y marwolaethau<br>  ◦ sefyllfa economaidd a chymdeithasol yn dirywio a diwedd Comiwnyddiaeth Ryfel<br>• Polisi Economaidd Newydd Lenin gan gynnwys:<br>  ◦ amcanion a dulliau'r Polisi Economaidd Newydd<br>  ◦ maint ei lwyddiant erbyn 1925 a'r rhesymau dros ddod â'r polisi i ben. |
| 3.5.4 Stalin | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• esgyniad Stalin, gan gynnwys:<br>  ◦ penodi Stalin yn Ysgrifennydd Cyffredinol a sut y defnyddiodd y rôl honno<br>  ◦ pryderon cynyddol Lenin am Stalin a'i sylwadau am Stalin yn ei ewyllys<br>• cael gwared ar Trotsky a gwrthwynebwyr eraill Stalin o'r Politburo, gan gynnwys:<br>  ◦ lleihau pwerau'r Politburo<br>  ◦ Stalin yn trechu'r gwrthwynebwyr Adain Chwith<br>• bywyd o dan Stalin, gan gynnwys:<br>  ◦ polisi Cyfunoliaeth, y Cynlluniau Pum Mlynedd, y cyrchoedd gwared<br>  ◦ defnydd Stalin o berswâd a gorfodaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.5.5 Yr Ail Ryfel Byd a'i effeithiau | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• y berthynas rhwng yr Almaen a'r Undeb Sofietaidd gan gynnwys:<br>  • Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid<br>  • Ymgyrch Barbarossa a goresgyniad yr Undeb Sofietaidd<br>• trechu byddin yr Almaen gan gynnwys:<br>  • methiannau strategol yn null ymladd yr Almaen yn y rhyfel ar ffrynt Rwsia<br>  • Leningrad, Stalingrad, a byddin yr Almaen yn encilio<br>• ailadeiladu ar ôl y rhyfel, gan gynnwys:<br>  • gwrthod Cymorth Marshall a meddiant gorfodol adnoddau diwydiannol a naturiol yr Almaen<br>  • gorfodi cyfundrefnau comiwnyddol yn nwyrain Ewrop, a Chytundeb Warsaw. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.6 Newidiadau yng nghymdeithas Unol Daleithiau America tua 1880–tua 1980** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br><br>3.6.1 Hil a mewnfudo<br>3.6.2 Y '20au gwyllt<br>3.6.3 Diwedd ffyniant<br>3.6.4 Hawliau Sifil tua 1945–tua 1968<br>3.6.5 Ail Don Ffeministiaeth tua 1960 – tua 1980<br><br>gyda'r nod o ddatblygu eu dealltwriaeth o sut y newidiodd ac y datblygodd cymdeithas Unol Daleithiau America yn ystod y cyfnod rhwng tua 1880 a thua 1980. | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| Cefndir: yr Unol Daleithiau ar droad yr ugeinfed ganrif | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• llywodraethiant Unol Daleithiau America ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, y Cyfansoddiad Ffederal, Hawliau'r Taleithiau, prif ideolegau gwleidyddol Unol Daleithiau America<br>• effaith anghydraddoldebau yn Unol Daleithiau America ar ddechrau'r cyfnod, yn ymwneud â chaethwasiaeth, hil, rhyw a phrofiadau Pobloedd Brodorol a mewnfudwyr. |
| 3.6.1 Hil a Mewnfudo | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• gwaddol caethwasiaeth, gan gynnwys:<br>  ◦ effaith cyfreithiau Jim Crow a phrofiadau Americanwyr Affricanaidd yn Nhaleithiau'r Gogledd<br>  ◦ gweithgareddau'r Ku Klux Klan<br>• y driniaeth a roddwyd i Bobloedd Brodorol, gan gynnwys:<br>  ◦ “Cymathu" ac effaith Ysgolion Preswyl "Indiaidd"<br>  ◦ Deddf Dinasyddiaeth yr Indiaid 1924 a mater parhaus hawliau pleidleisio Pobloedd Brodorol mewn gwahanol daleithiau<br>• profiadau cymunedau o fewnfudwyr, gan gynnwys:<br>  ◦ effaith "Mewnfudo Newydd" rhwng tua 1880 a'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>  ◦ effaith cyfyngiadau ar ôl y rhyfel fel Fformiwla Tarddiad Cenedlaethol 1921 a Deddf Mewnfudo 1924. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><td>3.6.2 Y '20au gwyllt</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>pam roedd economi Unol Daleithiau America yn ffynnu yn yr 1920au, gan gynnwys:<ul><li>ei hadnoddau naturiol, effaith economaidd y Rhyfel Byd Cyntaf, masgynhyrchu a'r car, polisïau’r Arlywyddion Gweriniaethol</li><li>pam nad oedd rhai grwpiau gan gynnwys ffermwyr a "hen" ddiwydiannau yn elwa o'r ffyniant economaidd</li></ul></li><li>sut y datblygodd adloniant poblogaidd, gan gynnwys:<ul><li>y radio, y teledu a'r sinema</li><li>diwylliant y speakeasy a'r Oes Jazz</li></ul></li><li>sut y datblygodd Dadeni Harlem, gan gynnwys:<ul><li>2 filiwn o Americanwyr Affricanaidd yn mudo o'r De i'r Gogledd yn ystod Y Mudo Mawr</li><li>artistiaid Americanaidd Affricanaidd enwog gan gynnwys Louis Armstrong, Duke Ellington a Bessie Smith.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>3.6.3 Diwedd ffyniant</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>achosion tymor hir y dirwasgiad economaidd, gan gynnwys:<ul><li>gorgynhyrchu a gostyngiad yn y galw gan ddefnyddwyr</li><li>polisïau diffyniaeth y Gweriniaethwyr</li></ul></li><li>achosion tymor byr y dirwasgiad economaidd, gan gynnwys:<ul><li>dirlawnder a hapfasnach y farchnad stoc</li><li>gwerthu mewn panig, Dydd Iau Du a Chwymp Wall Street</li></ul></li><li>effaith y dirwasgiad a Bargen Newydd Franklin D Roosevelt, gan gynnwys:<ul><li>cau banciau, Hoovervilles, diweithdra ac amhoblogrwydd Hoover</li><li>etholiad 1932 a Chytundeb Newydd FDR.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>3.6.4 Hawliau Sifil tua 1945–tua 1968</td><td>Dylai dysgwyr ddeall:<ul><li>effaith yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys cyfraniad Americanwyr Affricanaidd, ar Hawliau Sifil, gan gynnwys:<ul><li>profiadau tramor y milwyr Americanaidd Affricanaidd gwrywaidd a benywaidd oedd yn dychwelyd</li><li>Truman yn dadwahanu'r lluoedd arfog</li></ul></li><li>sut y datblygodd Hawliau Sifil rhwng 1953 a 1968, gan gynnwys:<ul><li>effaith a chanlyniadau Brown vs Topeka</li><li>arwyddocâd y Gorymdeithio ar Washington, 1963</li></ul></li><li>cyfraniad ac effaith gweithredwyr hawliau sifil, gan gynnwys:<ul><li>Martin Luther King Jr a Malcolm X; boicotio bysiau a phrotestiadau eistedd</li><li>hynt ac effaith deddfwriaeth hawliau sifil.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.6.5 Ail Don Ffeministiaeth tua 1960 – tua 1980 | Dylai dysgwyr ddeall:<br>• agweddau tuag at rôl a statws menywod yn yr 1950au a dechrau'r 1960au, gan gynnwys:<br>  • maint y dychwelyd i rolau a gwerthoedd traddodiadol yn dilyn yr Ail Ryfel Byd<br>  • arwyddocâd ffilm a theledu wrth ddiffinio rôl y fam a gwraig tŷ<br>• cyfraniad ac effaith awduron a gweithredwyr ffeministaidd, gan gynnwys:<br>  • Betty Friedan; Gloria Steinem a Martha Lear<br>  • ymgyrchoedd y National Organization for Women (NOW)<br>• effaith deddfwriaeth cydraddoldeb a dyfarniadau'r Goruchaf Lys ar hawliau menywod, gan gynnwys:<br>  • Deddf Cyflog Cyfartal 1963, Teitl VII Deddf Hawliau Sifil 1964, Teitl IX Diwygiadau Addysg 1972 a Deddf Cyfleoedd Cyfartal 1974<br>  • Reed v. Reed 1971 a Roe v. Wade 1973 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 4

**Cymdeithas sy'n newid**

Asesiad di-arholiad: 4 awr 15 munud
Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
20% o'r cymhwyster
80 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw rhoi cipolwg ar brofiadau gwahanol pobl drwy astudio digwyddiadau â thema benodol dros gyfnod amser estynedig. Mae profiadau'r bobl sy'n cael eu hastudio wedi'u cyfyngu i ynysoedd Prydain Fawr ac Iwerddon.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:
- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

**Meysydd cynnwys**

| Cyfnod o newid mewn cymdeithas |
|---|
| Mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar astudiaeth thematig o gyfnod parhaus o 75 i 100 mlynedd, er mwyn deall cyfnod o newid mewn cymdeithas.<br><br>Gall y cyfnod sy'n cael ei astudio fod yn gyfnod yr oesoedd canol, modern cynnar neu fodern.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall testunau hanesyddol annibynnol sy'n gysylltiedig â phob un o'r naw thema ganlynol (bydd yr athro yn nodi'r testunau hanesyddol):<br>• diwylliant<br>• cydraddoldeb ac anghydraddoldeb<br>• ethnigrwydd<br>• cydberthynas y gwledydd<br>• heddwch a gwrthdaro<br>• gwleidyddiaeth<br>• crefydd<br>• rhyw, rhywioldeb a rhywedd<br>• materion cymdeithasol ac economaidd.<br><br>Rhaid i leoliad daearyddol yr astudiaeth fod o fewn ynysoedd Prydain Fawr ac Iwerddon. Gall yr astudiaeth ddefnyddio'r rhanbarth cyfan neu nodi meysydd penodol yr hoffent fynd i'r afael â nhw.<br><br>Nid oes disgwyl i bob un o'r testunau hanesyddol gwmpasu holl gyfnod yr astudiaeth, yn hytrach mae'n debygol y byddant yn ffurfio penodau o'r newid mewn cymdeithas o fewn y cyfnod amser a ddewiswyd. Dylai dysgwyr allu adnabod cysylltiadau rhwng testunau lle bo hynny'n berthnasol.<br><br>Yn ystod yr astudiaeth, dylai dysgwyr fynd i'r afael â phedair eitem (dwy ffynhonnell hanesyddol a dau ddehongliad) fesul thema. Yna, bydd detholiad o'r eitemau hyn a astudiwyd yn ffurfio'r dystiolaeth ar gyfer yr ymholiad.<br><br>Gyda'i gilydd, dylai'r testunau hanesyddol a ddewiswyd roi sylw i'r cyfnod cyfan a dangos newid dros amser. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **4. Cymdeithas sy'n newid** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>4.1 Cynnal ymholiad hanesyddol | |
| Cynnwys | Ymhelaethiad |
| 4.1 Cynnal ymholiad hanesyddol | Cyn cynnal yr ymholiad hanesyddol, dylai dysgwyr ddeall:<br>• cyfnod o tua 75 i 100 mlynedd o hanes (y cyfnod ehangach), gyda dealltwriaeth fanwl o agweddau ar y cyfnod ehangach<br>• sut y cyfrannodd y gwahanol agweddau hynny at gyfnod o newid mewn cymdeithas<br><br>Dylai dysgwyr allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfnod a daearyddiaeth eu hastudiaeth i fynd i'r afael â'r cysyniadau hanesyddol canlynol:<br>• parhad a newid<br>• nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol<br>• arwyddocâd ac effaith<br>• achos a chanlyniad<br><br>Dylai dysgwyr allu dangos eu sgiliau hanesyddol drwy:<br>• adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael yng nghyd-destun y cyfnod ehangach a dewis cwestiwn priodol i drafod arwyddocâd cysyniadau penodol<br>• dewis, dadansoddi, gwerthuso a threfnu deunydd ffynhonnell perthnasol sydd ar gael<br>• adnabod gwahanol ddehongliadau a dadansoddi sut y cawsant eu datblygu<br>• cynllunio, drafftio a mireinio ateb dadansoddol sy'n dod i gasgliad sy'n ymateb i'r cwestiwn a ddewiswyd ganddynt<br>• adfyfyrio'n feirniadol ar y casgliadau y maent wedi'u cyrraedd a'r prosesau y maent wedi ymgymryd â nhw. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Hanes yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol
- cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol
- meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol
- cymryd rhan mewn gwaith tîm/cydweithio.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd a roddir gan y cymhwyster i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd

**AA3**
Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol

**AA4**
Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i gynnal ymholiadau hanesyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 10% | 10% | 10% | - | 30% |
| Uned 2 | - | 5% | 5% | 10% | 20% |
| Uned 3 | 10% | 10% | 10% | - | 30% |
| Uned 4 | - | 5% | 5% | 10% | 20% |
| Pwysoli cyffredinol | **20%** | **30%** | **30%** | **20%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

**Uned 2: Trosolwg**

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

Ar gyfer yr aseiniad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol. Byddant yn:

Cam 1: Adolygu'r cwestiwn, y llinell amser a'r naratif ac yn ffurfio rhagdybiaeth
Cam 2: Adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth (eitemau) yn feirniadol
Cam 3: Cynllunio'r ymateb
Cam 4: Datblygu'r ymateb
Cam 5: Adfyfyrio'n feirniadol ar y broses y maent wedi ymgymryd â hi a'r casgliad y maent wedi'i gyrraedd

Bydd yr eitemau (ffynonellau a dehongliadau) ar gyfer yr ymholiad, yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin ar gyfer asesu yn y flwyddyn academaidd ganlynol a byddant yn newid yn flynyddol. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pa bryd, yn y cyfnod rhwng 7 Ionawr a 31 Mawrth, y bydd dysgwyr yn ymgymryd â'r aseiniad. Bydd y cwestiwn sy'n rhan o ffocws yr ymholiad hanesyddol ar gael o fewn platfform e-asesu CBAC o ddechrau'r cyfnod asesu, ochr yn ochr â naratif byr a llinell amser o'r cyfnod.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 3 awr i'w gwblhau. Gellid cwblhau'r aseiniad mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau, byrrach. Bydd yr aseiniad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 80 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol a bydd yn cael ei farcio gan CBAC.

**Uned 4: Trosolwg**

Ar gyfer yr aseiniad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros gyfnod o 75-100 mlynedd. Byddant yn:

Cam 1: Dewis y cwestiwn, adolygu'r dystiolaeth ac yn ffurfio rhagdybiaeth
Cam 2: Adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth (eitemau) yn feirniadol
Cam 3: Cynllunio'r ymateb
Cam 4: Datblygu'r ymateb
Cam 5: Adfyfyrio'n feirniadol ar y broses y maent wedi ymgymryd â hi a'r casgliad y maent wedi'i gyrraedd

Bydd yr ymholiad hanesyddol yn canolbwyntio ar ddwy o'r naw thema a astudiwyd ar gyfer Uned 4. Bydd dwy thema osod yn cael eu rhyddhau gan CBAC yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w hasesu yn y flwyddyn academaidd honno a byddant yn newid yn flynyddol. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd yn ystod y flwyddyn y mae dysgwyr yn gwneud yr aseiniad.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 4 awr a 15 munud i'w gwblhau. Gellid cwblhau'r aseiniad mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau, byrrach. Bydd yr aseiniad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 80 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol. Bydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i safoni gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru a dyfarnu

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 4 ar gael yn 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2028.

Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 oed neu iau ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)

Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Hanes i ymgeiswyr Cyn-16.

Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau arholiad a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Ymgeiswyr Ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)

Nid oes rheol derfynol sy'n berthnasol i Ymgeiswyr ôl-16 ar gyfer TGAU Hanes.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddwy ymgais ddiweddaraf wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Nodir y codau cofrestru isod:

| | | **Codau cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| Uned 1a | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru – Yr Oesoedd Canol | 3130UA | 3130NA |
| Uned 1b | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru – Modern Cynnar | 3130UB | 3130NB |
| Uned 1c | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru – Modern | 3130UC | 3130NC |
| Uned 2a | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Yr Oesoedd Canol – Ghengis Khan | 3130UD | 3130ND |
| Uned 2a | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Yr Oesoedd Canol – The Black Death | 3130UE | 3130NE |
| Uned 2b | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Modern Cynnar – Concwest Sbaen ar yr Asteciaid | 3130UF | 3130NF |
| Uned 2b | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Modern Cynnar – Süleyman I | 3130UG | 3130NG |
| Uned 2c | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Modern – Y Drydedd Reich | 3130UH | 3130NH |
| Uned 2c | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd – Modern - Afghanistan | 3130UJ | 3130NJ |
| Uned 3a | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd – Yr Oesoedd Canol | 3130UK | 3130NK |
| Uned 3b | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd – Modern cynnar | 3130UL | 3130NL |
| Uned 3c | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd - Modern | 3130UM | 3130NM |
| Uned 4 | Cymdeithas sy'n newid | 3130U4 | 3130N4 |
| **CBAC TGAU Hanes** | | 3130QS | 3130CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

| UNED | Uchaf | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| Uned 2 | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| Uned 3 | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| Uned 4 | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Dyfarniad Pwnc** | 600 | 540 | 480 | 420 | 360 | 300 | 240 | 180 | 120 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Meysydd Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | | | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | | | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli ffenomena yn y byd go iawn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | | ✓ | | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | ✓ | | ✓ |
| Cynhyrchu | | ✓ | | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Meysydd Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | | | |
| Sgiliau Cyfannol | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd a roddir gan y cymhwyster i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024